

NCFE

CACHE

Manyleb cymhwyster

**Tystysgrif Lefel 3 NCFE CACHE mewn Deall
Gwaith Chwarae
Rhif: 610/0644/0**

**Diploma Lefel 3 NCFE CACHE mewn Gwaith
Chwarae
Rhif: 610/0645/2**

Crynodeb o'r cymhwyster

| | | | |
|--|--|--|----------|
| Teitl y cymhwyster | Tystysgrif Lefel 3 NCFE CACHE mewn Deall Gwaith Chwarae | | |
| Rhif cymhwyster Ofqual (QN) | 610/0644/0 | Cyfeirnod | 61006440 |
| Oriau dysgu dan arweiniad (ODDA) | 204 | Cyfanswm amser y cymhwyster (CAC) | 240 |
| Gwerth credyd | 24 | | |
| Pwyntiau UCAS | Dyrannwyd pwyntiau UCAS i'r cymhwyster hwn. Cyfeiriwch at wefan UCAS am fanylion pellach am y dyraniad pwyntiau a'r wybodaeth ddiweddaraf. | | |
| Cyfres amnyth | Mae'r Dystysgrif Lefel 3 hon mewn Deall Gwaith Chwarae yn rhan o gyfres amnyth, gan gynnwys y cymhwyster canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae | | |
| Oedran ifancaf | 18 | | |
| Pwrpas y cymhwyster | Cynlluniwyd y cymhwyster hwn i ddarparu gwybodaeth fanwl am rôl y gweithiwr chwarae lefel 3, a'r wybodaeth sydd ei hangen i weithio gyda phlant rhwng 4 ac 16 oed. Mae'r dystysgrif yn seiliedig ar wybodaeth yn bennaf gydag ychydig bach o gymhwyso ymarferol; mae hefyd yn nythu o fewn y Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae sy'n caniatáu cyfleoedd dilyniant. Mae'r cymhwyster hwn yn adlewyrchu safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC) 2016 ac yn paratoi'r dysgwr ar gyfer cyflogaeth mewn safle gwaith chwarae ar lefel 3. | | |
| Graddio | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | | |
| Dull asesu | Asesiad mewnol a phortffolio o dystiolaeth sy'n destun sicrhau ansawdd allanol. | | |
| Profiad lleoliad gwaith/diwydiant | Cymhwyster sy'n seiliedig ar wybodaeth yw hwn. Nid oes angen profiad lleoliad gwaith. | | |

| | | | |
|--|--|--|----------|
| Teitl y cymhwyster | Diploma Lefel 3 NCFE CACHE mewn Gwaith Chwarae | | |
| Rhif cymhwyster Ofqual (QN) | 610/0645/2 | Cyfeirnod | 61006452 |
| Oriau dysgu dan arweiniad (ODDA) | 458 | Cyfanswm amser y cymhwyster (CAC) | 530 |
| Gwerth credyd | 53 | | |
| Pwyntiau UCAS | Dyrannwyd pwyntiau UCAS i'r cymhwyster hwn. Cyfeiriwch at wefan UCAS am fanylion pellach am y dyraniad pwyntiau a'r wybodaeth ddiweddaraf. | | |
| Cyfres amnyth | Mae'r Diploma Lefel 3 hwn mewn Gwaith Chwarae yn rhan o gyfres amnyth, gan gynnwys y cymhwyster canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Tystysgrif Lefel 3 mewn Deall Gwaith Chwarae | | |
| Oedran ifancaf | 18 | | |
| Pwrpas y cymhwyster | <p>Mae'r cymhwyster hwn yn darparu gwybodaeth fanwl am rôl y gweithiwr chwarae lefel 3.</p> <p>Mae'r diploma'n ymdrin â'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen wrth weithio heb oruchwyliaeth, ac mae'n mynnu bod y dysgwyr yn dangos y rhain yn y gweithle.</p> <p>Fe'i hanelir at weithwyr chwarae profiadol sydd â gwerthfawrogiad o egwyddorion ac ymarfer gwaith chwarae.</p> <p>Mae'r cymhwyster hwn yn adlewyrchu safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC) 2016 ac yn rhoi cymhwysedd i arwain ymarfer mewn safle gwaith chwarae ar lefel 3.</p> | | |
| Graddio | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | | |
| Dull asesu | Asesiad mewnol a phortffolio o dystiolaeth sy'n destun sicrhau ansawdd allanol. | | |
| Profiad lleoliad gwaith/diwydiant | Mae'r cymhwyster hwn yn gofyn bod dysgwyr yn cwblhau profiad lleoliad gwaith gorfodol drwy gydol y cymhwyster, cyn eu hardystio. | | |
| Fframwaith prentisiaethau | Mae modd ennill y cymhwyster hwn hefyd fel rhan o fframwaith prentisiaeth gwaith chwarae Cymru. Mae gwybodaeth am brentisiaethau a'r dogfennau diweddaraf ar gael o Lyfrgell Fframweithiau Tystysgrifau Prentisiaeth Cymru https://acwcerts.co.uk/web/frameworks-library . Dylid troi at y rhain bob amser i sicrhau bod yr holl gymwysterau, unedau, asesiadau, oriau yn y swydd ac amodau prentisiaeth gorfodol yn cael eu cyflawni a'u profi. | | |

Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| Crynodeb o'r cymhwyster | 2 |
| Crynodeb o newidiadau | 6 |
| Adran 1: cyflwyniad | 7 |
| Nodau ac amcanion | 7 |
| Llawlyfr cymorth | 7 |
| Canllawiau ar gyfer mynediad a chofrestru | 8 |
| Cyflawni'r cymwysterau hyn | 8 |
| Dilyniant i astudiaethau lefel uwch | 9 |
| Gofynion o ran adnoddau | 9 |
| Profiad lleoliad gwaith | 9 |
| Ystodau oedran y mae'r cymwysterau'n ymdrin â hwy | 9 |
| Sut y caiff y cymwysterau eu hasesu | 10 |
| Asesiad mewnol | 10 |
| Adran 2: cynnwys unedau a chanllawiau asesu | 12 |
| L3CD PW1 Deall egwyddorion chwarae a gwaith chwarae (J/650/0596) | 13 |
| L3CD PW2 Creu amgylcheddau cefnogol ar gyfer chwarae plant (K/650/0597) | 14 |
| L3CD PW3 Deall sut i gefnogi diogelu plant yn y safle gwaith chwarae (L/650/0598) | 17 |
| L3CD PW4 Deall fframweithiau sefydliadol i ddiogelu hawliau plant (R/650/0616) | 22 |
| L3CD PW5 Deall chwarae a lles (M/650/0599) | 24 |
| L3CD PW6 Deall perthnasoedd yn y safle gwaith chwarae (D/650/0600) | 26 |
| L3CD PW7 Deall iechyd a diogelwch yn y safle gwaith chwarae (F/650/0601) | 28 |
| L3CD PW8 Cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol ac ymarfer myfyriol (H/650/0602) | 31 |
| L3D PW9 Cyfrannu at fframweithiau sefydliadol i ymateb i anghenion a dewisiadau pob plentyn (J/650/0603) | 33 |
| L3D PW10 Cynnal amgylcheddau iach a diogel mewn gwaith chwarae (K/650/0604) | 35 |
| L3D PW11 Datblygu a hyrwyddo perthnasoedd yn y safle gwaith chwarae (L/650/0605) | 37 |
| L3D PW12 Paratoi ar gyfer chwarae plant a'i gefnogi (M/650/0606) | 39 |
| L3D PW13 Cefnogi cynhwysiant mewn safle gwaith chwarae (R/650/0607) | 41 |
| L3D PWOP1 Archwilio gwahanol safbwyntiau a dylanwadau ar waith chwarae (Y/650/0609) | 43 |
| L3D PWOP2 Trefnu teithio i blant (F/650/0610) | 45 |
| L3D PWOP3 Hyrwyddo eich sefydliad gwaith chwarae eich hun (H/650/0611) | 48 |
| L3D PWOP4 Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau ac unigolion eraill (J/650/0612) | 50 |
| L3D PWOP5 Gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol ac anabledau mewn safle gwaith chwarae (K/650/0613) | 52 |
| L3D PWOP6 Gweithio gyda rhieni, gofawyr a theuluoedd (L/650/0614) | 54 |
| L3D PWOP7 Deall gwaith tîm ar gyfer ymarfer gwaith chwarae o ansawdd (M/650/0615) | 57 |
| L3D PWOP8 Deall sut i gyfrannu at weithredu safle gwaith chwarae (A/650/1717) | 59 |
| L3D PWOP9 Darparu bwyd a diod mewn safle gwaith chwarae (D/650/1718) | 60 |
| L3D PWOP10 Hwyluso meysydd chwarae antur (F/650/1719) | 62 |
| Dulliau asesu a argymhellir | 65 |
| Strategaethau ac egwyddorion asesu sy'n berthnasol i'r cymwysterau hyn | 66 |
| Egwyddorion asesu NCFE ar gyfer cymwysterau gofal oedolion, gofal plant ac iechyd | 66 |
| Adran 3: esboniad o dermau | 71 |
| Adran 4: cymorth | 73 |
| Deunyddiau cymorth | 73 |
| Deunyddiau cymorth eraill | 73 |
| Atgynhyrchu'r ddogfen hon | 73 |
| Cysylltwch â ni | 74 |
| Atodiad A | 75 |
| Unedau | 75 |

Tystysgrif Lefel 3 NCFE CACHE mewn Deall Gwaith Chwarae (610/0644/0)
Diploma Lefel 3 NCFE CACHE mewn Gwaith Chwarae (610/0645/2)

5

Unedau gorfodol
Unedau dewisol

75
77

Crynodeb o newidiadau

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r newidiadau ym manyleb y cymhwyster hwn.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r newidiadau ym manyleb y cymhwyster hwn ers y fersiwn ddiwethaf (Fersiwn 1.1 Gorffennaf 2022). Trowch at wefan NCFE ar gyfer y fersiwn ddiweddaraf.

| Fersiwn | Dyddiad cyhoeddi: | Crynodeb o'r newidiadau |
|---------|-------------------|--|
| f1.0 | Gorffennaf 2022 | Cyhoeddiad cyntaf |
| f1.1 | Gorffennaf 2022 | Newid yn uned L3D PWOP9 , mae'r uned yn ddewisol ac nid yw'n orfodol. |
| f1.2 | Tachwedd 2023 | Gwybodaeth am bwyntiau UCAS wedi'i hychwanegu at grynodeb o'r cymhwyster . Mae adran ychwanegol o egwyddorion asesu NCFE ar gyfer cymwysterau gofal oedolion, gofal plant ac iechyd hefyd wedi'i chynnwys. Ychwanegwyd rhagor o wybodaeth am strategaethau asesu . |

Adran 1: cyflwyniad

Os ydych yn defnyddio manyleb y cymhwyster hwn at ddibenion cynllunio, gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf.

Nodau ac amcanion

Tystysgrif Lefel 3 mewn Deall Gwaith Chwarae

Nod y cymhwyster hwn yw:

- canolbwyntio ar astudio rôl y gweithiwr chwarae
- cynnig ehangder a dyfnder astudio, gan ymgorffori craidd allweddol o wybodaeth

Amcanion y cymhwyster hwn yw:

- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl y gweithiwr chwarae lefel 3
- darparu dull fesul cam o ddysgu gydag unedau a rennir gyda'r diploma i gefnogi dilyniant
- cael ei gynllunio ar gyfer y rhai sy'n anelu at weithio neu sydd yn gweithio gyda phlant 4 i 16 oed mewn amrywiaeth o safleoedd chwarae

Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae

Nod y cymhwyster hwn yw:

- canolbwyntio ar astudio rôl y gweithiwr chwarae
- cynnig ehangder a dyfnder astudio, gan ymgorffori craidd allweddol o wybodaeth
- cynnig cyfleoedd i feithrin nifer o sgiliau ymarferol a thechnegol

Amcanion y cymhwyster hwn yw:

- caffael gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl alwedigaethol y gweithiwr chwarae lefel 3 yn ei chyd-destun
- dangos y cymhwysedd sy'n ofynnol ar gyfer ymarfer proffesiynol yn rôl y gweithiwr chwarae lefel 3

Llawlyfr cymorth

Rhaid defnyddio manyleb y cymhwyster hwn ochr yn ochr â'r llawlyfr cymorth gorfodol sydd ar gael ar wefan NCFE. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ategol ychwanegol i helpu gyda'r cynllunio, y cyflawni a'r asesu.

Mae manyleb y cymhwyster hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth benodol i gymhwyster y bydd ei hangen arnoch nad yw'n cael ei chynnwys yn y llawlyfr cefnogi.

Canllawiau ar gyfer mynediad a chofrestru

Cynlluniwyd y cymwysterau hyn ar gyfer dysgwyr sy'n gweithio, neu'n dymuno gweithio, gyda phlant rhwng 4 a 16 oed mewn safleoedd gwaith chwarae.

Dylai dysgwyr fod yn 18 mlwydd oed o leiaf. Nid ydym yn gosod unrhyw ofynion mynediad eraill, ond efallai y bydd gan golegau neu ddarparwyr hyfforddiant eu canllawiau eu hunain.

Mae cofrestru yn ôl disgrisiwn y ganolfan, yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb a dylid ei wneud ar y Porth.

Nid oes unrhyw sgiliau na gwybodaeth flaenorol benodol y mae'n rhaid i ddysgwr eu cael ar gyfer y cymwysterau hyn. Fodd bynnag, gallai fod o gymorth i ddysgwyr os ydynt eisoes wedi ennill cymhwyster lefel 2.

Mae'r canolfannau yn gyfrifol am sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cyflawni'r canlyniadau dysgu a chydymffurfio a'r gofynion llythrennedd, rhifedd ac iechyd a diogelwch perthnasol.

Ni ddylai dysgwyr sydd wedi cofrestru ar y cymwysterau hyn ddilyn cymhwyster arall ar yr un lefel, nac un gyda'r un teitl neu deitl tebyg, oherwydd gall dyblygu'r dysgu effeithio ar gymhwysedd cyllid.

Cyflawni'r cymwysterau hyn

Tystysgrif Lefel 3 mewn Deall Gwaith Chwarae

Er mwyn dyfarnu'r cymhwyster hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr gyflawni **24 credyd o'r 8** uned orfodol.

Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae

Er mwyn dyfarnu'r cymhwyster hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr gyflawni **53 credyd**: 43 credyd o'r 13 uned orfodol, ynghyd â **10 credyd pellach o'r** unedau dewisol.

Cyfeiriwch at y rhestr o unedau yn atodiad A neu'r crynodebau unedau yn adran 2 am ragor o wybodaeth

Er mwyn cyflawni'r cymwysterau hyn, rhaid i ddysgwyr ddangos eu bod wedi cyflawni holl ganlyniadau dysgu'r unedau fel y manylir arnynt ym manyleb y cymhwyster hwn. Gellir gofyn am dystysgrif rannol ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn ennill eu cymhwyster llawn ond sydd wedi cyflawni o leiaf un uned gyfan.

Dilyniant

Tystysgrif Lefel 3 mewn Deall Gwaith Chwarae

Gallai dysgwyr sy'n cyflawni'r cymhwyster hwn fynd ymlaen i'r canlynol:

- cyflogaeth:
 - clybiau cyn ac ar ôl ysgol
 - cynlluniau chwarae gwyliau
 - meysydd chwarae antur
 - safleoedd chwarae mynediad agored
 - ceidwaid chwarae
- addysg bellach:

- Diploma Lefel 3 NCFE CACHE mewn Gwaith Chwarae (610/0645/2)
- cymwysterau mewn sectorau eraill (er enghraifft, gwaith ieuenctid)

Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae

Gallai dysgwyr sy'n cyflawni'r cymhwyster hwn fynd ymlaen i'r canlynol:

- cyflogaeth:
 - clybiau cyn ac ar ôl ysgol
 - cynlluniau chwarae gwyliau
 - meysydd chwarae antur
 - safleoedd chwarae mynediad agored
 - ceidwaid chwarae
- addysg uwch:
 - cymwysterau lefel uwch eraill yn ymwneud â gwaith chwarae
 - Diploma Lefel 5 NCFE CACHE mewn Gwaith Chwarae Uwch (Cymru) (Ymarferydd) (601/5370/2/PRAC)
 - Diploma Lefel 5 NCFE CACHE mewn Gwaith Chwarae Uwch (Cymru) (Rheolwr) (601/5370/2/MAN)
 - cymwysterau mewn sectorau eraill (er enghraifft, gwaith ieuenctid)

Dilyniant i astudiaethau lefel uwch

Nod cymwysterau Lefel 3 yw hwyluso dilyniant i astudio lefel uwch, sy'n gofyn am wybodaeth a sgiliau sy'n wahanol i'r rhai a gafwyd ar lefelau 1 a 2. Mae cymwysterau Lefel 3 yn galluogi dysgwyr i:

- gymhwyso gwybodaeth bwnc ffeithiol, weithdrefnol a damcaniaethol
- defnyddio gwybodaeth a dulliau perthnasol i fynd i'r afael â phroblemau cymhleth, anarferol
- dehongli a gwerthuso gwybodaeth a syniadau perthnasol
- deall natur maes astudio'r gwaith
- dangos ymwybyddiaeth am wahanol safbwyntiau a dulliau
- adnabod, dewis a defnyddio sgiliau gwybyddol ac ymarferol priodol
- ddefnyddio ymchwil briodol i lywio camau gweithredu
- adolygu a gwerthuso effeithiolrwydd eu dulliau eu hunain

Gofynion o ran adnoddau

Nid oes unrhyw ofynion adnoddau gorfodol ar gyfer y cymwysterau hyn, ond rhaid i ganolfannau sicrhau bod adnoddau addas ar gael i ddysgwyr er mwyn iddynt gwmpasu'r holl ganlyniadau dysgu priodol.

Profiad lleoliad gwaith

Nid oes angen lleoliad gwaith gorfodol ar Dystysgrif Lefel 3 yn Deall Gwaith Chwarae gan fod hwn yn gymhwyster sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Mae'r Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae yn gofyn bod dysgwyr yn cwblhau profiad lleoliad gwaith gorfodol drwy gydol y cymhwyster, cyn eu hardystio.

Ystodau oedran y mae'r cymwysterau'n ymdrin â hwy

Mae'r cymwysterau hyn yn ymdrin ag ystod oedran plant rhwng 4 ac 16 oed.

Sut y caiff y cymwysterau eu hasesu

Asesu yw'r broses o fesur sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwr yn erbyn y safonau a osodir mewn cymhwyster.

Caiff y cymwysterau hyn eu hasesu'n fewnol ac maent yn destun sicrhau ansawdd allanol.

Mae un elfen i'r asesiad, sef:

- portffolio o dystiolaeth a asesir yn fewnol ac sy'n cael ei asesu gan staff y ganolfan ac yn destun sicrhau ansawdd allanol gan NCFE (rhaid i'r ganolfan gwblhau proses sicrhau ansawdd fewnol o hyd fel arfer)

Rhaid i ddysgwyr fod yn llwyddiannus yn y rhan hon er mwyn ennill Tystysgrif Lefel 3 mewn Deall Gwaith Chwarae a Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae.

Cymhwyster sy'n seiliedig ar gymhwysedd yw'r Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae.

Gall cymhwyster sy'n seiliedig ar gymhwysedd fod yn seiliedig ar safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC) ac mae'n gymhwyster parod ar gyfer swydd sy'n gofyn bod dysgwyr yn dangos y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i weithio mewn diwydiant penodol. Rhaid asesu cymhwyster sy'n seiliedig ar gymhwysedd yn y gweithle neu mewn amgylchedd gwaith go iawn yn unol â'r strategaeth asesu berthnasol. I gael rhagor o wybodaeth am y strategaeth, ewch i'r dudalen gymwysterau ar wefan NCFE.

Os na fydd dysgwyr yn llwyddiannus, gallant ailgyflwyno gwaith o fewn y cyfnod cofrestru; fodd bynnag, efallai bydd tâl am hyn.

Bydd yr holl dystiolaeth sy'n cael ei chynhyrchu gan y dysgwr yn cael ei hasesu yn erbyn y safonau a ddisgwyllir gan ddysgwr lefel 3 ar gyfer pob canlyniad dysgu.

Oni nodir yn wahanol yn y fanyleb hon, rhaid i bob dysgwr sy'n cymryd y cymhwyster hwn gael ei asesu yn Saesneg a rhaid i'r holl dystiolaeth asesu a gyflwynir ar gyfer sicrhau ansawdd allanol fod yn Saesneg.

Asesiad mewnol

Rydym wedi creu rhai tasgau sampl ar gyfer rhai o'r unedau gorfodol sy'n cael eu hasesu'n fewnol, sydd i'w gweld yn y ddogfen tasgau sampl asesu mewnol. Nid yw'r tasgau hyn yn orfodol. Gallwch osod y tasgau hyn yn eu cyd-destun i gyd-fynd ag anghenion eich dysgwyr i'w helpu i gasglu eu portffolio o dystiolaeth. Cynlluniwyd y tasgau i gwmpasu'r canlyniadau dysgu gwybodaeth ar draws pob uned a darparu cyfleoedd ar gyfer ymestyn a herio. I gael gwybod rhagor am osod y tasgau yn eu cyd-destun, cysylltwch â thîm datblygu'r darparwr.

Rhaid i bob dysgwr greu portffolio o dystiolaeth wedi'i chynhyrchu o dasgau asesu priodol, sy'n dangos cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu sy'n gysylltiedig â phob uned. Ar ôl cwblhau pob uned, rhaid i ddysgwyr ddatgan mai eu gwaith hwy eu hunain yw'r gwaith a gynhyrchwyd a rhaid i'r aseswr gydlodfodi hyn. Darperir enghreifftiau o dystiolaeth addas ar gyfer y portffolio ar gyfer pob uned yn adran 2.

Gall canolfan ddewis creu ei thasgau asesu mewnol ei hun. Mae pedair elfen hanfodol wrth gynhyrchu tasgau asesu llwyddiannus yn y ganolfan, sef:

- sicrhau bod y tasgau asesu yn ystyrlon gyda chanlyniadau clir y gellir eu hasesu

- ymdriniaeth briodol â'r cynnwys, canlyniadau dysgu (LO), neu feini prawf asesu (AC)
- cael cyd-destun neu senario dilys a diddorol
- cynnwys digon o gyfleoedd i ymestyn a herio i'r rhai uwch eu cyrhaeddiad

Gweler y ddogfen ganllawiau ar gyfer creu tasgau asesu mewnol ar ein gwefan.

Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae

Darperir canllawiau asesu ar gyfer pob uned. Gall aseswyr ddefnyddio dulliau asesu eraill cyn belled â'u bod yn ddilys ac yn ddibynadwy a'u bod yn cynnal uniondeb yr asesiad a'r safonau sy'n ofynnol gan y cymwysterau hyn.

Adran 2: cynnwys unedau a chanllawiau asesu

Mae'r adran hon yn rhoi manylion am strwythur a chynnwys y cymwysterau hyn.

Mae'r mathau o dystiolaeth a restrir at ddibenion arweiniad yn unig. O fewn portffolios dysgwyr, mae mathau eraill o dystiolaeth yn dderbyniol os ymdrinnir â'r holl ganlyniadau dysgu ac os oes modd sicrhau ansawdd y dystiolaeth a gynhyrchwyd yn fewnol ac yn allanol. I gymeradwyo dulliau asesu mewnol ar wahân i adeiladu portffolio, cysylltwch â'r sawl sy'n sicrhau ansawdd yn allanol.

Mae'r esboniad o dermau'n esbonio sut mae'r termau a ddefnyddir yng nghynnwys yr uned yn cael eu cymhwyso i'r cymwysterau hyn. Mae'r ddogfen hon i'w gweld yn adran 3.

L3CD PW1 Deall egwyddorion chwarae a gwaith chwarae (J/650/0596)



| Crynodeb o'r uned | | | | |
|--|---------------------------------------|----------------|------------------|----------------|
| Mae'r uned hon yn ymdrin â gwybodaeth am yr egwyddorion gwaith chwarae, a dealltwriaeth o chwarae. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Gorfodol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 3 chredyd | 25 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr yn: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|--|
| 1. Deall pam mae plant yn chwarae | 1.1 Esbonio'r reddf gynhenid sydd gan blant i chwarae |
| | 1.2 Dadansoddi'r rheidrwydd i chwarae |
| | 1.3 Esbonio beth a olygir wrth ddweud bod chwarae yn rheidrwydd biolegol, seicolegol a chymdeithasol |
| 2. Deall beth yw chwarae | 2.1 Diffinio'r termau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • chwarae sy'n cael ei ddewis yn rhydd • chwarae sy'n hunangyfeiriedig • chwarae wedi'i gymell yn gynhenid |
| | 2.2 Esbonio'r gwahaniaeth rhwng chwarae a gweithgareddau a arweinir gan oedolion |
| 3. Deall ymhle gall plant chwarae | 3.1 Defnyddio enghreifftiau i adnabod gwahanol amgylcheddau lle mae chwarae'n digwydd |
| 4. Deall diben yr egwyddorion gwaith chwarae | 4.1 Esbonio egwyddorion gwaith chwarae. |
| | 4.2 Esbonio sut mae'r egwyddorion gwaith chwarae yn hanfodol i ymarfer gwaith chwarae |

| Canllawiau cyflwyno ac asesu |
|--|
| <p>3.1 Rhaid i'r dysgwr allu adnabod, gan ddefnyddio enghreifftiau, o leiaf 5 amgylchedd gwahanol.</p> <p>4.1 Dylai'r dysgwr allu esbonio'r egwyddorion gwaith chwarae yn ei eiriau eu hun a chrynhoi eu pwrpas.</p> <p>Gellid asesu'r uned hon trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dasg ysgrifenedig • trafodaeth broffesiynol • myfyrdod <p>Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):</p> <ul style="list-style-type: none"> • SKAPW50: Creu safleoedd gwaith chwarae sy'n cefnogi chwarae hunangyfeiriedig wedi'i ddewis yn rhydd |

L3CD PW2 Creu amgylcheddau cefnogol ar gyfer chwarae plant (K/650/0597)

| Crynodeb o'r uned | | | | |
|--|---------------------------------------|----------------|-----------------|----------------|
| Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r elfennau o ymarfer sydd eu hangen ar weithiwr chwarae i ddeall gwaith chwarae yn ymarferol. Mae'n rhoi dealltwriaeth i weithwyr chwarae o'r safle chwarae a sut i gefnogi chwarae sy'n cael ei ddewis yn rhydd ac sy'n hunangyfeiriedig, damcaniaethau chwarae, ymyriadau a phwysigrwydd risg a her wrth chwarae. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Gorfodol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 4 credyd | 36 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr : | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|--|--|
| 1. Yn deall ble gall gwaith chwarae ddigwydd | 1.1 Disgrifio gwahanol leoliadau lle gall gwaith chwarae ddigwydd |
| 2. Yn deall amgylcheddau chwarae cyfoethog | 2.1 Disgrifio agweddau'r cwricwlwm gwaith chwarae a'u heffaith ar amgylchedd chwarae cyfoethog |
| | 2.2 Disgrifio sut y gall technoleg neu'r byd rhithwir fod o fudd i amgylchedd chwarae cyfoethog |
| | 2.3 Gwerthuso sut mae damcaniaethau hyblygrwydd cyfansawdd a darnau rhydd yn cael effaith gadarnhaol ar amgylchedd chwarae cyfoethog |
| 3. Yn deall pwysigrwydd casglu gwybodaeth am chwarae plant | 3.1 Esbonio pwysigrwydd arsylwi wrth ddeall chwarae plant |
| | 3.2 Esbonio pam mae'n bwysig casglu gwybodaeth er mwyn deall anghenion a dewisiadau chwarae plant |
| 4. Yn deall y cylch chwarae | 4.1 Esbonio camau unigol y cylch chwarae a sut y gellir arsylwi'r rhain yn ymarferol |
| | 4.2 Disgrifio'r gwahanol fathau o chwarae |
| | 4.3 Esbonio sut mae plant yn elwa ar amrywiaeth o fathau o chwarae |
| 5. Yn deall sut i ddarparu manau chwarae | 5.1 Disgrifio gwahanol fannau chwarae a sut i ddarparu ar gyfer y rhain |
| | 5.2 Rhoi enghreifftiau o fannau chwarae rhyng-gysylltiedig |
| | 5.3 Esbonio sut mae cefnogi plant i greu manau chwarae |
| 6. Yn deall sut i gefnogi chwarae hunangyfeiriedig plant | 6.1 Esbonio pam mae'n bwysig i blant ddewis ac archwilio manau chwarae drostynt eu hunain |
| | 6.2 Disgrifio sut i rymuso plant i newid eu man chwarae i ddiwallu eu hanghenion a'u dewisiadau chwarae |
| | 6.3 Egluro pwysigrwydd ymyriad gwaith chwarae priodol |
| 7. Yn deall pwysigrwydd risg a her wrth chwarae | 7.1 Esbonio buddion risg, symbyliad a her yn ystod chwarae plant |
| | 7.2 Esbonio'r termau: <ul style="list-style-type: none"> • asesiad o fudd risg • asesiad o fudd risg dynamig |
| | 7.3 Disgrifio sut y gall gweithiwr chwarae gefnogi plant i reoli risg drostynt eu hunain |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr : | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|--|
| 8. Yn gallu myfyrio ar chwarae plant | 8.1 Myfyrio ar arsylwadau o chwarae plant i ystyried: <ul style="list-style-type: none"> • amrywiaeth o fathau o chwarae • enghreifftiau o'r cylch chwarae • plant sy'n rheoli risg eu hunain |

| Ystod |
|---|
| 2. Deall amgylcheddau chwarae cyfoethog |
| 2.1 Amgylcheddau chwarae cyfoethog: Mae amgylchedd chwarae cyfoethog yn amrywiol, ac mae iddo lawer o bosibiliadau a chyfleoedd, gan alluogi plant i wneud dewisiadau wrth greu ac estyn eu chwarae eu hunain. Gallai hyn fod yn unrhyw chwarae dan do neu awyr agored a gall gynnwys ardaloedd chwarae lleol. |
| 3. Deall pwysigrwydd casglu gwybodaeth am chwarae plant |
| 3.2 Gwybodaeth: Er enghraifft, gall gwybodaeth gael ei chasglu drwy: <ul style="list-style-type: none"> • arsylwi ar chwarae plant • adborth gan blant • gwerthuso'r safle • cofnodion plant • gwybodaeth a gasglwyd gan rieni/gofalwyr neu staff |
| 5. Deall sut i ddarparu mannau chwarae |
| 5.1 Mannau chwarae: Rhaid cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • corfforol • dros dro • affeithiol • parhaol <p>Dylid tywys dysgwyr i ddeall sut i greu gwahanol fannau chwarae, manteision pob un o'r mannau chwarae a'r mathau o brofiadau y gall plant eu cael o bob man chwarae.</p> |
| 6. Deall sut i gefnogi chwarae hunangyfeiriedig plant |
| 6.3 Ymyriad gwaith chwarae priodol: Mae'n rhaid i ddysgwyr fod â gwerthfawrogiad o: <ul style="list-style-type: none"> • 16 math o chwarae Bob Hughes (1996) • lefelau ymyryd • dulliau ymyryd • Papur Colorado (Sturrock ac Else, 1998) |

Canllawiau cyflwyno ac asesu

8.1 Y dull sy'n cael ei ffafrio yw bod y dysgwr yn arsylwi ar chwarae plant, ond gellir defnyddio astudiaeth achos fideo i arsylwi ar chwarae plant os oes angen, fel dull o adnabod mathau o chwarae, y cylch chwarae ac ymyryd oedolion gan fod LO8 yn ymwneud â myfyrio.

Gellid asesu'r uned hon trwy:

- dasg ysgrifenedig
- trafodaeth broffesiynol
- myfyrdod
- arsylwadau o chwarae plant (rhaid i ddysgwyr sicrhau nad ellir adnabod plant o'r adroddiadau arsylwi)

Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):

- SKAPW50: Creu safleoedd gwaith chwarae sy'n cefnogi chwarae hunangyfeiriedig a ddewiswyd yn rhydd
- SKAPW52: Cyfrannu at gynnal asesiadau risg yn y safle gwaith chwarae

L3CD PW3 Deall sut i gefnogi diogelu plant yn y safle gwaith chwarae (L/650/0598)



| Crynodeb o'r uned | | | | |
|---|---------------------------------------|----------------|-----------------|----------------|
| Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i ddiogelu plant yn y safle gwaith chwarae. Mae'n cynnwys cefnogi lles a diogelwch plant ar-lein. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Gorfodol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 4 credyd | 36 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr : | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|--|--|
| 1. Yn deall y brif ddeddfwriaeth, canllawiau, polisiau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant. | 1.1 Amlinellu'r ddeddfwriaeth , canllawiau a pholisiau cyfredol sy'n effeithio ar ddiogelu plant |
| | 1.2 Esbonio cyfrifoldebau'r gweithiwr chwarae mewn perthynas â pholisiau a gweithdrefnau a chanllawiau ar gyfer diogelu lles plant gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • adrodd/ymdrin â datgelu • amddiffyn plant a hyrwyddo lles plant • cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth • diogeledd • defnyddio technoleg • chwythu'r chwiban • bwlio |
| | 1.4 Amlinellu nodweddion cod ymarfer diogel ar gyfer amddiffyn aelodau o'r tîm gwaith chwarae a gwirfoddolwyr |
| | 1.4 Dadansoddi sut mae canllawiau, polisiau a gweithdrefnau cenedlaethol a lleol ar gyfer diogelu yn effeithio ar waith pob dydd gyda phlant |
| | 1.5 Esbonio pryd a pham y mae angen ymholiadau ac adolygiadau achos difrifol/adolygiadau ymarfer plant a sut mae rhannu'r canfyddiadau yn llywio ymarfer |
| 2. Yn deall pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ddiogelu plant | 2.1 Esbonio pwysigrwydd diogelu plant y tu mewn a'r tu allan i'r safle |
| | 2.2 Esbonio ystyr gweithio mewn partneriaeth yng nghyd-destun diogelu |
| | 2.3 Disgrifio rolau a chyfrifoldebau gwahanol sefydliadau a all gael eu cynnwys pan fydd plentyn mewn perygl o gamdriniaeth neu'n datgelu camdriniaeth |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwyr : | Meini prawf asesu Mae'r dysgwyr yn gallu: |
|---|--|
| 3. Yn deall y gwahanol fathau o gam-drin sy'n gallu effeithio ar blant mewn cyd-destun gwaith chwarae | 3.1 Disgrifio ffactorau a allai gyfrannu at y ffaith bod plentyn yn fwy agored i gamdriniaeth |
| | 3.2 Disgrifio arwyddion, symptomau, dangosyddion ac ymddygiadau posibl gwahanol fathau o gam-drin |
| | 3.3 Disgrifio effaith cam-drin ar chwarae plant |
| | 3.4 Disgrifio'r camau i'w cymryd pan fydd camdriniaeth plentyn yn cael ei hamau neu ei honni yn unol â pholisïau a gweithdrefnau ei safle ei hun |
| | 3.5 Esbonio'r hawliau sydd gan blant a'u gofalwyr mewn sefyllfaoedd pan fydd camdriniaeth yn cael ei hamau eu ei honni |
| 4. Yn deall sut i ymateb pan fydd bwlio'n cael ei amau neu ei honni | 4.1 Esbonio'r mathau gwahanol o fwlio a'r effeithiau posibl ar blant |
| | 4.2 Esbonio sut i gefnogi plentyn a/neu ei deulu pan fydd bwlio'n cael ei amau neu ei honni |
| 5. Yn deall sut i weithio gyda phlant i gefnogi eu diogelwch a'u lles | 5.1 Esbonio pam mae'n bwysig gweithio gyda'r plentyn i sicrhau bod ganddo strategaethau i ddiogelu ei hun a gwneud penderfyniadau am ei ddiogelwch |
| | 5.2 Disgrifio sut i gefnogi plant i gydnabod pan fydd yr ymddygiad tuag atynt gan blentyn arall, person ifanc neu oedolyn yn amhriodol |
| | 5.3 Esbonio ffyrdd o rymuso plant i wneud penderfyniadau cadarnhaol a gwybodus sy'n cefnogi eu lles a'u diogelwch |
| 6. Yn deall pwysigrwydd e-ddiogelwch ar gyfer plant | 6.1 Nodi gwahanol ffyrdd y gall plant ddefnyddio technoleg neu'r byd rhithwir yn eu chwarae |
| | 6.2 Esbonio'r risgiau a'r canlyniadau posibl i blant o fod ar-lein a defnyddio cyfathrebu electronig |
| | 6.3 Disgrifio dulliau y gallai gweithiwr chwarae eu defnyddio i gefnogi plant i leihau'r risgiau o fod ar-lein |
| | 6.4 Nodi ffynonellau cyfredol o wybodaeth a chymorth sy'n ymwneud ag e-ddiogelwch |

| Ystod |
|---|
| 1. Deall y brif ddeddfwriaeth, canllawiau, polisïau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant |
| <p>1.1 Deddfwriaeth:</p> <p>Dylai dysgwyr wybod am ddeddfwriaeth o fewn eu cenedl gartref.</p> <p>1.4 O ddydd i ddydd:</p> <p>Er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> ymarfer gwaith chwarae amddiffyn plant asesiad risg sicrhau y caiff llais y plentyn neu'r person ifanc ei glywed (er enghraifft, darparu gwasanaethau eiriolaeth) cefnogi plant ac eraill a all fod yn mynegi pryderon |

| Ystod |
|--|
| 1. Deall y brif ddeddfwriaeth, canllawiau, polisiau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu plant. |
| 1.5 Adolygiadau achos difrifol/adolygiadau ymarfer plant: Dylid darllen cyfeiriadau at adolygiadau achos difrifol yng nghyd-destun terminoleg gyfredol cenedl y dysgwr ei hun |
| 2. Deall pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i ddiogelu plant |
| 2.3 Sefydliadau gwahanol: Gall enghreifftiau gynnwys, er enghraifft: <ul style="list-style-type: none">• gwasanaethau cymdeithasol• elusennau a gwasanaethau plant, fel:<ul style="list-style-type: none">○ y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)○ Childline• meddyg teulu• y gwasanaeth prawf• yr heddlu• yr ysgol |
| 3. Deall y gwahanol fathau o gam-drin sy'n gallu effeithio ar blant mewn cyd-destun gwaith chwarae |
| 3.2 Mathau o gamdriniaeth: Rhaid i ddysgwyr gael dealltwriaeth o ddiogelu plant rhwng 4 a 16 oed, ac ymwybyddiaeth am fathau o gam-drin a allai ddigwydd o fewn yr ystod oedran hon. Dylai'r ddarpariaeth hybu ymwybyddiaeth am y mathau canlynol o gam-drin: <ul style="list-style-type: none">• corfforol• emosiynol• rhywiol• esgeulustod• domestig• cam-fanteisio ar blant• rhwng cymheiriaid• anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM)• salwch wedi'i ffugio a'i achosi gan eraill• eithafiaeth a radicaleiddio Wrth ystyried y maen prawf asesu hwn, rhaid ystyried gwerthfawrogiad o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). |
| 3.5 Gofalwyr: Mae gofalwyr yn cyfeirio at y rheini mewn capasiti ffurfiol neu gyfreithiol yn ogystal â rolau gofalu eraill, fel neiniau a theidiau neu warchodwyr plant. |

| Ystod |
|---|
| 4. Deall sut i ymateb pan fydd bwlio'n cael ei amau neu ei honni |
| 4.1 Bwlio: Er enghraifft: <ul style="list-style-type: none">• corfforol:<ul style="list-style-type: none">○ gwthio○ cicio○ bwrw○ pinsio○ mathau eraill o drais neu fygythiadau• geiriol:<ul style="list-style-type: none">○ galw enwau○ sarhau○ coegni○ lledaenu sibrydion○ pryfocio parhaus• emosiynol:<ul style="list-style-type: none">○ cau allan○ poenydio○ gwawdio○ codi cywilydd• seibr-fwlio• defnyddio technoleg yn fwriadol, yn enwedig ffonau symudol a'r rhyngwrwyd, i anfon negeseuon o natur fygythiol neu frawychus• mathau penodol o fwlio sy'n gallu ymwneud â'r uchod i gyd, fel:<ul style="list-style-type: none">○ homoffobig neu'n seiliedig ar rywedd○ hiliol○ sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig ac anabledau |
| 6. Deall pwysigrwydd e-ddiogelwch ar gyfer plant |
| 6.2 Cyfathrebu electronig: Er enghraifft: <ul style="list-style-type: none">• y rhyngwrwyd• dyfeisiau clyfar• dyfeisiau llaw• ffonau symudol• cyfryngau cymdeithasol• rhwydweithio cymdeithasol• gemau ar-lein |

Canllawiau cyflwyno ac asesu

2.1 Cynnwys diogelu data a rhannu gwybodaeth.

3.3 Disgrifiwch y camau i'w cymryd os bydd niwed neu gamdriniaeth plentyn yn cael eu hamau neu eu honni, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau eich safle eich hun.

LO6: Wrth gyflawni'r canlyniad dysgu hwn, byddai o fudd i'r dysgwr fod yn ymwybodol o'r gwahanol lwyfannau ar-lein a all fod ar gael i blant.

Gellid asesu'r uned hon trwy:

- dasgau ysgrifenedig
- trafodaeth broffesiynol

Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):

- SKAPW53: Cyfrannu at iechyd, diogelwch a lles plant a phobl ifanc yn y safle gwaith chwarae
- SKAPW54: Nodi pryderon diogelu yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn y safle gwaith chwarae

L3CD PW4 Deall fframweithiau sefydliadol i ddiogelu hawliau plant (R/650/0616)



| Crynodeb o'r uned | | | | |
|--|---------------------------------------|----------------|------------------|----------------|
| Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth sydd ei hangen ar weithiwr chwarae i ddeall hawliau plant a sut y caiff yr hawliau hyn eu cynnal yn y safle gwaith chwarae. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Gorfodol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 3 chredyd | 25 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|--|---|
| 1. Yn deall hawliau'r plentyn | 1.1 Egluro perthnasedd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) |
| | 1.2 Amlinellu'r erthyglau sydd fwyaf perthnasol i waith chwarae, gan roi rhesymau pam |
| | 1.3 Esbonio Sylw Cyffredinol Rhif 17 a'i bwysigrwydd i waith chwarae |
| 2. Yn deall sut i gyfrannu at bolisiau a gweithdrefnau sy'n adlewyrchu hawliau plant | 2.1 Esbonio sut mae sefydliadau gwaith chwarae yn ceisio cynnal hawliau pob plentyn |
| | 2.2 Gwerthuso polisiau a gweithdrefnau mewn perthynas â hawliau'r plentyn |
| | 2.3 Esbonio pwysigrwydd y safle chwarae yn gosod polisiau a gweithdrefnau sy'n adlewyrchu hawliau'r plentyn, gan gynnwys polisi chwarae |
| | 2.4 Esbonio sut mae hyrwyddo hawliau plant ar y safle chwarae |
| | 2.5 Gwerthuso polisi chwarae mewn perthynas â chefnogi hawl plant i chwarae a Sylw Cyffredinol Rhif 17 |
| 3. Yn deall sut i gynnal polisiau a gweithdrefnau sy'n adlewyrchu hawliau plant | 3.1 Esbonio sut i sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau'n cael eu rhoi ar waith |
| | 3.2 Egluro pwysigrwydd adolygu polisiau a gweithdrefnau |

| Ystod |
|--|
| 1. Deall hawliau'r plentyn |
| 1.3 Sylw cyffredinol Rhif 17: Mabwysiadodd CCUHP Sylw Cyffredinol Rhif 17 i egluro i lywodraethau ledled y byd ystyr a phwysigrwydd erthygl 31 o'r confensiwn ar hawliau'r plentyn. Mae'r ddogfen hon yn ceisio gwella dealltwriaeth o hawl plant i orffwys a chwarae. |
| 2. Deall sut i gyfrannu at bolisiau a gweithdrefnau sy'n adlewyrchu hawliau plant |
| 2.1 Hawliau: Rhaid cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • i chwarae a gweithgareddau cymdeithasol • i ofal a diogelwch |

Ystod

- i les emosiynol
- i gynhwysiant
- i gydnabod hunaniaeth
- i gael gwybodaeth:
- i ymgynghori a gwneud penderfyniadau

Canllawiau cyflwyno ac asesu

LO2: Rhaid i ddysgwyr werthuso polisi chwarae eu safle eu hunain. Os nad oes gan y safle bolisi chwarae, yna gellid darparu sampl o bolisi ar gyfer gwerthuso. Gallai hyn lywio myfyrdod a allai ddarparu tystiolaeth fuddiol ar draws unedau eraill. Byddai hefyd o fudd i ddealltwriaeth y dysgwr hybu ymwybyddiaeth am bolisi chwarae cenedlaethol ei genedl gartref. Un gweithgaredd yn y dosbarth efallai fyddai ysgrifennu polisi chwarae i estyn y dysgu.

Gellid asesu'r uned hon trwy:

- dasg ysgrifenedig
- trafodaeth broffesiynol

Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):

- SKAPW50: Creu safleoedd gwaith chwarae sy'n cefnogi chwarae hunangyfeiriedig wedi'i ddewis yn rhydd
- SKAPW53: Cyfrannu at iechyd, diogelwch a lles plant a phobl ifanc yn y safle gwaith chwarae
- SKAPW54: Nodi pryderon diogelu yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn y safle gwaith chwarae
- SKAPW57: Cyfrannu at gefnogi plant a phobl ifanc anabl yn y safle gwaith chwarae

L3CD PW5 Deall chwarae a lles (M/650/0599)



| Crynodeb o'r uned | | | | |
|--|---------------------------------------|----------------|------------------|----------------|
| Mae'r uned hon yn darparu gwybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer dealltwriaeth y gweithiwr chwarae o iechyd meddwl a lles plant. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Gorfodol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 3 chredyd | 25 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|--|---|
| 1. Yn deall rôl chwarae ar gyfer datblygiad a lles cyfannol | 1.1 Dadansoddi sut mae chwarae'n cyfrannu at ddatblygiad a lles cyfannol plant |
| 2. Yn deall ffactorau sy'n effeithio ar sut mae plant yn teimlo | 2.1 Nodi ffactorau a allai effeithio ar sut mae plant yn teimlo |
| | 2.2 Dadansoddi sut y gallai teimladau ac emosiynau plentyn effeithio ar ei ymddygiad |
| | 2.3 Esbonio sut y gall chwarae gefnogi plant i fynegi teimladau ac emosiynau |
| 3. Yn deall rôl chwarae ar gyfer rheoleiddio | 3.1 Esbonio sut y gall chwarae gefnogi plant i hunanreoleiddio |
| | 3.2 Disgrifio ffyrdd y gall safle chwarae ddarparu profiadau sy'n meithrin ar gyfer hunanreoleiddio mewn plant |
| 4. Yn deall y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd meddwl a lles plant | 4.1 Crynhoi mathau o ffactorau a allai effeithio ar iechyd meddwl a lles plant |
| | 4.2 Esbonio ystyr profiadau niweidiol yn ystod plentynod a sut y gallai hyn ddylanwadu ar blant drwy gydol eu bywydau |
| | 4.3 Esbonio rôl ymarfer sy'n cael ei lywio gan drawma |
| 5. Yn deall effaith trawsnewidiadau ar blant | 5.1 Disgrifio trawsnewidiadau allweddol y mae pob plentyn yn cael profiad ohonynt |
| | 5.2 Disgrifio trawsnewidiadau y mae rhai plant yn cael profiad ohonynt |
| | 5.3 Disgrifio sut y gall trawsnewidiad ddylanwadu ar sut mae plant yn chwarae |
| 6. Yn deall rôl gwaith chwarae wrth gefnogi iechyd meddwl a lles plant | 6.1 Esbonio sut mae chwarae'n helpu plant i ddatblygu eu: <ul style="list-style-type: none"> • cadernid • hunan-barch • hunanhyder |
| | 6.2 Myfyrio ar sut y gall gwaith chwarae gefnogi plant i fagu cadernid, hyder a hunan-barch |

Canllawiau cyflwyno ac asesu

Gall **2.2 a 5.3** gyflwyno cyfleoedd asesu cyfannol. Rhaid i'r aseswr sicrhau bod yr holl feini prawf asesu'n cael eu bodloni'n llawn wrth ystyried croesgyfeirio a bod dyfarniad wedi'i gofnodi.

Gall **4.2** gyflwyno cyfleoedd ar gyfer asesu cyfannol o fewn AC3.4 uned L3CD PW6 Deall perthnasoedd yn y safle gwaith chwarae (D/650/0600). Rhaid i'r aseswr sicrhau bod yr holl feini prawf asesu yn cael eu cwmpasu'n llawn wrth ystyried croesgyfeirio a rhaid cofnodi dyfarniad o gymhwysedd.

Gellid asesu'r uned hon trwy:

- dasg ysgrifenedig
- trafodaeth broffesiynol
- myfyrdod

Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):

- SKAPW54: Nodi pryderon diogelu yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn y safle gwaith chwarae
- SKAPW55: Cyfrannu at ddatblygu a chynnal perthynas â phlant, pobl ifanc ac eraill yn y safle gwaith chwarae

L3CD PW6 Deall perthnasoedd yn y safle gwaith chwarae (D/650/0600)



| Crynodeb o'r uned | | | | |
|--|---------------------------------------|----------------|------------------|----------------|
| Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar weithiwr chwarae er mwyn magu perthynas â phlant, perthynas rhwng plant a pherthynas ag oedolion eraill, gan gynnwys rhieni, a'r rhai sy'n ymwneud â gofal plant. Bydd y gweithiwr chwarae hefyd yn dysgu sut i gefnogi plant i sefydlu a chynnal perthynas â phlant eraill ac oedolion. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Gorfodol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 3 chredyd | 25 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Yn deall sut i fagu perthynas â phlant | 1.1 Disgrifio gwahanol strategaethau i helpu pob plentyn i deimlo bod croeso iddo a'i fod yn cael ei werthfawrogi yn y safle gwaith |
| | 1.2 Esbonio geiriau a rhyngweithiadau 'priodol' ac 'amhriodol' pan fydd gweithiwr chwarae yn ymgysylltu â phlant |
| | 1.3 Esbonio pam mae'n bwysig cynnwys plant wrth wneud penderfyniadau |
| | 1.4 Gwerthuso gwahanol ffyrdd o gynnwys plant wrth wneud penderfyniadau |
| 2. Yn deall sut i gefnogi cyfathrebu â phlant | 2.1 Esbonio pwysigrwydd gwrando'n weithredol a chyfathrebu'n glir â phlant |
| | 2.2 Amlinellu pam mae'n bwysig i blant allu gofyn cwestiynau, cynnig syniadau a gwneud awgrymiadau am y safle gwaith chwarae |
| | 2.3 Disgrifio gwahanol ddulliau cyfathrebu y gallai gweithiwr chwarae eu defnyddio sy'n briodol i anghenion neu alluoedd unigol plentyn |
| 3. Yn deall sut i gefnogi plant i ddatblygu perthynas ag eraill | 3.1 Defnyddio enghreifftiau i ddangos sut y gellir cefnogi plant i ddeall gwerth a phwysigrwydd perthnasoedd cadarnhaol |
| | 3.2 Esbonio pam mae'n bwysig i blant allu delio â gwrthdaro eu hunain |
| | 3.3 Esbonio'r mathau o gymorth y gall fod angen i'r gweithiwr chwarae eu rhoi i helpu plant i ddelio â gwrthdaro eu hunain |
| | 3.4 Esbonio sut y gall profiadau plentynod effeithio ar berthynas plant ag eraill |
| 4. Yn deall sut i gyfathrebu ag oedolion. | 4.1 Esbonio pam mae'n bwysig cael perthynas gadarnhaol ag oedolion yn y safle gwaith chwarae |
| | 4.2 Esbonio pwysigrwydd cyfathrebu clir ag oedolion yn yr amgylchedd chwarae |
| | 4.3 Crynhoi gwahanol strategaethau y gall y gweithiwr chwarae eu defnyddio i gyfathrebu ag oedolion sydd ag anawsterau cyfathrebu |
| | 4.4 Amlinellu mathau o sefyllfaoedd a allai arwain at wrthdaro rhwng gweithwyr chwarae ac oedolion eraill a sut y gallech ymateb iddynt |

Ystod

4. Deall sut i gyfathrebu ag oedolion

4.1 Oedolion:

Er enghraifft:

- tîm gwaith chwarae a gwirfoddolwyr
- staff eraill yn y safle
- rhieni/gofalwyr a'r rhai mewn rolau gofalu
- aelodau o'r gymuned
- gweithwyr proffesiynol allanol

Rhaid i'r dysgwr ystyried cyfathrebu ag o leiaf dau wahanol fath o oedolion wrth geisio cyflawni'r maen prawf asesu hwn.

Canllawiau cyflwyno ac asesu

Gall **3.4** gyflwyno cyfleoedd ar gyfer asesu cyfannol o fewn AC4.2 uned L3CD PW5 Deall chwarae a lles (M/650/0599).

Rhaid i'r aseswr sicrhau bod yr holl feini prawf asesu yn cael eu cwmpasu'n llawn wrth ystyried croesgyfeirio, a rhaid cofnodi dyfarniad o gymhwysedd.

Gellid asesu'r uned hon trwy:

- dasg ysgrifenedig
- trafodaeth broffesiynol

Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):

- SKAPW55: Cyfrannu at ddatblygu a chynnal perthynas â phlant, pobl ifanc ac eraill yn y safle gwaith chwarae
- SKAPW77: Datblygu a gwella perthnasoedd yn y safle gwaith chwarae

L3CD PW7 Deall iechyd a diogelwch yn y safle gwaith chwarae (F/650/0601)



| Crynodeb o'r uned | | | | |
|--|---------------------------------------|----------------|------------------|----------------|
| Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i gynnal iechyd a diogelwch yn y safle gwaith chwarae, gan gynnwys sut i ymdrin â damweiniau, afiechydon ac argyfyngau. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Gorfodol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 2 chredyd | 16 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|--|--|
| 1. Yn deall y gofynion a'r canllawiau deddfwriaethol ar gyfer iechyd a diogelwch yn y safle gwaith chwarae | 1.1 Crynhoi'r gofynion statudol a'r rheoleiddio ar gyfer iechyd a diogelwch sy'n berthnasol mewn cyd-destun gwaith chwarae |
| 2. Yn deall polisiau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch mewn safle gwaith chwarae | 2.1 Esbonio polisiau a gweithdrefnau ar gyfer iechyd a diogelwch sy'n berthnasol mewn cyd-destun gwaith chwarae |
| | 2.2 Esbonio'r gweithdrefnau ar gyfer archwilio diogelwch yn y safle gwaith chwarae |
| | 2.3 Amlinellu sut y gall cyfnod datblygu a gallu plant effeithio ar drefniadau iechyd a diogelwch mewn safle gwaith chwarae |
| 3. Yn deall peryglon mewn safle gwaith chwarae | 3.1 Nodi gwahanol berygion a all ddigwydd mewn safle gwaith chwarae |
| | 3.2 Disgrifio sut i asesu ac ymateb i'r peryglon a all ddigwydd mewn safle gwaith chwarae |
| | 3.3 Esbonio'r camau y dylai gweithiwr chwarae eu cymryd os na ellir gwaredu perygl |
| | 3.4 Egluro'r gwahaniaeth rhwng archwiliadau iechyd a diogelwch ac asesiad budd risg |
| 4. Yn deall sut i ymateb i ddamweiniau ac argyfyngau eraill mewn safle gwaith chwarae | 4.1 Esbonio sut i ymateb i ystod o ddamweiniau ac anafiadau |
| | 4.2 Esbonio'r gweithdrefnau brys ar gyfer: <ul style="list-style-type: none"> • tân • plant ar goll • gwacáu'r adeilad • digwyddiad diogelwch • argyfwng meddygol |
| | 4.3 Esbonio'r gweithdrefnau i'w dilyn i gofnodi ac adrodd am ddamweiniau ac argyfyngau |
| 5. Yn deall sut i ymateb i afiechydon ac alergeddau mewn safle gwaith chwarae | 5.1 Disgrifio arwyddion a symptomau mathau cyffredin o afiechydon ac alergeddau plentyndod y gallai gweithiwr chwarae ddod ar eu traws |
| | 5.2 Esbonio ymatebion priodol i ystod o afiechydon ac alergeddau cyffredin plentyndod |
| | 5.3 Esbonio gweithdrefnau cadw cofnodion ac adrodd wrth ymateb i afiechydon ac alergeddau mewn safle gwaith chwarae |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|--|--|
| 6. Yn deall ymarfer hylendid mewn safle gwaith chwarae | 6.1 Esbonio arfer da mewn perthynas â: <ul style="list-style-type: none">• thraws-heintiad• trin bwyd• gwaredu gwastraff• clefyd heintus neu glefyd a gludir yn y gwaed |

| Ystod |
|---|
| 1. Deall y gofynion a'r canllawiau deddfwriaethol ar gyfer iechyd a diogelwch yn y safle gwaith chwarae |
| 1.1 Gofynion statudol a rheoleiddiol: Dylai dysgwyr ddeall y gofynion statudol a rheoleiddiol, er enghraifft: <ul style="list-style-type: none">• codi a chario• gwacáu adeilad mewn tân• clefyd y lleng filwyr• rheoli sylweddau peryglus i iechyd (COSHH) (2002)• rheoliadau adrodd am anafiadau, clefydau, a digwyddiadau peryglus (RIDDOR) (2013)• diogelwch bwyd• cloi i lawr/cloi i mewn• gwacáu'r adeilad |
| 2. Deall polisiau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch mewn safle gwaith chwarae |
| 2.1 Polisiau a gweithdrefnau: Rhaid cynnwys: <ul style="list-style-type: none">• ymarfer tân o chwith• ymarfer tân• tresmaswr• cloi i lawr |
| 2.2 Archwilio diogelwch: Rhaid cynnwys: <ul style="list-style-type: none">• archwiliadau diogelwch ar gyfer y cyfleusterau a'r cyfarpar• hylendid y toiledau a'r manau ymolchi• symud plant o'r naill le i'r llall• plant y dod ac yn ymadael• storio meddyginiaeth a'i roi |

| Ystod |
|---|
| 3. Deall peryglon mewn safle gwaith chwarae |
| 3.1 Peryglon: Rhaid i ddysgwyr allu rhoi o leiaf 6 enghraifft o beryglon ar draws y categorïau canlynol: <ul style="list-style-type: none">• corfforol• amgylcheddol• chwarae ac ymddygiad• diogeledd• hylendid |
| Canllawiau cyflwyno ac asesu |
| LO2: Byddai o fudd i'r dysgwyr gael dealltwriaeth o'r rhesymau dros ddefnyddio gwahanol fathau o asesiadau risg ysgrifenedig ffurfiol a sut i'w cwblhau. Er enghraifft: <ul style="list-style-type: none">• clefyd y lleng filwyr• tân• cymorth cyntaf• alergeddau• cyflyrau meddygol• aelod beichiog o'r staff Gall 2.1 a 4.2 gyflwyno cyfleoedd asesu cyfannol. Rhaid i'r aseswr sicrhau bod yr holl feini prawf asesu yn cael eu cwmpasu'n llawn wrth ystyried croesgyfeirio, a bod dyfarniad o gymhwysedd yn cael ei gofnodi'n glir. Gellid asesu'r uned hon trwy: <ul style="list-style-type: none">• dasg ysgrifenedig• trafodaeth broffesiynol Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC): <ul style="list-style-type: none">• SKAPW53: Cyfrannu at iechyd, diogelwch a lles plant a phobl ifanc yn y safle gwaith chwarae |

L3CD PW8 Cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol ac ymarfer myfyriol (H/650/0602)

| Crynodeb o'r uned | | | | |
|--|---------------------------------------|----------------|------------------|----------------|
| Mae'r uned hon yn ystyried datblygiad proffesiynol ac arferion myfyriol a'r ddau beth yn sylfaenol i rôl y gweithiwr chwarae ac ymarfer sefydliadol. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Gorfodol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 2 chredyd | 16 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|--|
| 1. Yn deall sut mae myfyrio yn cyfrannu at ei ddatblygiad proffesiynol ei hun | 1.1 Egluro pwysigrwydd ymarfer myfyriol ar gyfer gwaith chwarae |
| | 1.2 Esbonio sut mae ymarfer myfyriol yn ymwneud ag egwyddorion gwaith chwarae |
| | 1.3 Esbonio sut y gellir defnyddio arsylwadau o chwarae ac adborth gan blant ac oedolion wrth baratoi ar gyfer ymarfer gwaith chwarae |
| | 1.4 Esbonio sut y gallai gwerthoedd, systemau cred a phrofiadau personol effeithio ar ymarfer gwaith |
| 2. Yn deall sut mae myfyrio yn gwella ymarfer sefydliadol | 2.1 Esbonio sut mae myfyrio yn cefnogi datblygu ymarfer gwaith chwarae o fewn y safle |
| 3. Yn gallu datblygu cynllun ar gyfer datblygiad proffesiynol | 3.1 Nodi unrhyw fylchau gwybodaeth neu sgiliau sy'n gofyn am ddatblygiad proffesiynol i ddiwallu anghenion cyfredol neu yn y dyfodol ar gyfer ymarfer gwaith chwarae |
| | 3.2 Nodi ffynonellau cymorth ar gyfer cynllunio ac adolygu ei ddatblygiad ei hun |
| | 3.3 Dangos sut i weithio gydag eraill i adolygu a blaenoriaethu ei anghenion dysgu, ei ddiddordebau proffesiynol a'i gyfleoedd datblygiad ei hun |
| | 3.4 Defnyddio adborth i werthuso'i berfformiad ei hun a hysbysu am gynlluniau datblygu |
| | 3.5 Llunio cynllun ar gyfer datblygiad proffesiynol |
| 4. Yn gallu defnyddio cyfleoedd dysgu i gyfrannu at ddatblygiad proffesiynol | 4.1 Nodi gwahanol gyfleoedd hyfforddi a datblygiad proffesiynol |
| | 4.2 Ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) sy'n berthnasol i'w nodau a'i dargedau ei hun |
| | 4.3 Dangos sut mae cofnodi cynnydd mewn perthynas â datblygiad proffesiynol |
| | 4.4 Myfyrio ynghylch gweithgareddau datblygiad proffesiynol |

Canllawiau cyflwyno ac asesu

LO3 a LO4: Gall dysgwyr nad ydynt mewn lleoliad neu gyflogaeth mewn safle gwaith chwarae gyflawni'r canlyniadau dysgu hyn drwy weithio gyda pherson priodol i ystyried datblygiad proffesiynol (er enghraifft, gallai hwn fod yn diwtor, aseswr neu fentor).

Dylid annog dysgwyr i ystyried eu hanghenion datblygu a'u cyfleoedd DPP eu hunain cyn gweithio gyda pherson priodol i lunio'u cynllun datblygu.

Mae cyfleoedd i ymgymryd â myfyrio fel tasg gyfannol sy'n cwmpasu nifer o'r meini prawf asesu. Rhaid i'r aseswr sicrhau bod yr holl feini prawf asesu'n cael eu bodloni'n llawn wrth ystyried croesyfeirio, a bod dyfarniad o gymhwysedd yn cael ei gofnodi.

Gellid asesu'r uned hon trwy:

- dasgau ysgrifenedig
- trafodaeth broffesiynol, wedi'i hategu gan gynhyrchion gwaith yn ôl yr angen
- cynhyrchion gwaith, megis:
 - cofnodion o gyfarfodydd un ac un
 - dogfennau arfarnu blynyddol
 - sgan sgiliau personol
 - cofnodion DPP
 - cynlluniau datblygu wedi'u cwblhau gydag eraill
 - adborth gan blant ac eraill
 - cofnodion hyfforddi a thystysgrifau DPP
 - disgrifiad myfyriol

Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):

- SKAPW61: Gwerthuso i wella eich arfer eich hun a gwaith eich tîm gwaith chwarae
- SKAPW84: Cynllunio a gweithredu eich datblygiad proffesiynol mewn gwaith chwarae

L3D PW9 Cyfrannu at fframweithiau sefydliadol i ymateb i anghenion a dewisiadau pob plentyn (J/650/0603)

| Crynodeb o'r uned | | | | |
|--|---------------------------------------|----------------|------------------|----------------|
| Mae'r uned hon yn asesu'r cymhwysedd sydd ei angen ar weithiwr chwarae i sicrhau bod fframwaith sefydliadol y safle gwaith chwarae yn diwallu anghenion a dewisiadau pob plentyn. Mae hefyd angen arddangos bod gwerth chwarae'n cael ei hyrwyddo. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Gorfodol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 5 chredyd | 46 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|--|
| 1. Yn gallu adnabod anghenion a dewisiadau plant | 1.1 Nodi anghenion a dewisiadau plant gan ddefnyddio dulliau gwahanol |
| | 1.2 Dangos sut mae'r wybodaeth a gasglwyd yn cael ei defnyddio i ymateb i anghenion a dewisiadau plant |
| | 1.3 Myfyrion ar ymarfer gwaith chwarae o ran diwallu anghenion a dewisiadau plant |
| 2. Yn gallu cyfrannu at weithdrefnau sy'n adlewyrchu anghenion a dewisiadau plant | 2.1 Dadansoddi fframweithiau sefydliadol i sicrhau bod anghenion a dewisiadau plant yn cael eu diwallu |
| | 2.2 Cyfrannu at wella gweithdrefnau sefydliadol mewn perthynas â diwallu anghenion a dewisiadau plant |
| | 2.3 Myfyrion ynghylch sut mae ei leoliad ei hun yn bodloni anghenion a dewisiadau plant |
| 3. Yn gallu hybu gwerth chwarae i eraill | 3.1 Dangos sut i hyrwyddo gwerth chwarae i eraill |

| Ystod |
|--|
| 1. Gallu adnabod anghenion a dewisiadau plant |
| 1.1 Dulliau gwahanol: |
| Rhaid i ddysgwyr allu nodi anghenion a dewisiadau plant gan ddefnyddio dulliau gwahanol. Gallai'r rhain fod yn: |
| <ul style="list-style-type: none"> • arsylwadau • rhyngweithio dan arweiniad plant • mathau eraill o fethodoleg nad ydynt yn amharu |

Ystod

3. Gallu hybu gwerth chwarae i eraill

3.1 Eraill:

Mae'n cyfeirio at:

- staff eraill
- rhieni/gofalwyr neu deuluoedd
- ymwelwyr allanol
- gweithwyr proffesiynol eraill
- y gymuned leol

Canllawiau cyflwyno ac asesu

Mae'n rhaid asesu canlyniadau dysgu 1, 2 a 3 mewn amgylchedd gwaith go iawn.

Gellid asesu'r uned hon trwy:

- arsylwi uniongyrchol
- cynhyrchion gwaith, er enghraifft:
 - cofnodion cyfarfodydd tîm sy'n dangos sut mae'r dysgwr wedi cyfrannu at wella gweithdrefnau
 - dadansoddiad o syniadau blwch awgrymiadau plant
 - anodiad polisïau gyda naratif ychwanegol sy'n esbonio sut mae'r safle'n diwallu anghenion a dewisiadau'r plant
 - gall cynhyrchion gwaith fod yn ddefnyddiol i ategu trafodaeth broffesiynol
- trafodaeth broffesiynol
- myfyrdod

Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):

- SKAPW55: Cyfrannu at ddatblygu a chynnal perthynas â phlant, pobl ifanc ac eraill yn y safle gwaith chwarae
- SKAPW68: Cyfrannu at ddatblygu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc
- SKAPW75: Datblygu ac adolygu polisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc

L3D PW10 Cynnal amgylcheddau iach a diogel mewn gwaith chwarae (K/650/0604)

| Crynodeb o'r uned | | | | |
|--|---------------------------------------|----------------|------------------|----------------|
| Mae'r uned hon yn asesu'r cymhwysedd sydd ei angen ar weithiwr chwarae i ddatblygu a chynnal safle gwaith chwarae iach a diogel i blant. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Gorfodol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 2 chredyd | 16 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|--|
| 1. Yn gallu sefydlu safle gwaith chwarae iach a diogel | 1.1 Dangos sut mae gwybodaeth am iechyd a diogelwch ar gael i bob plentyn ac oedolyn sy'n defnyddio'r safle chwarae |
| | 1.2 Adolygu gweithdrefnau iechyd a diogelwch yn unol â newid amgylchiadau a gofynion a gwneud awgrymiadau am welliannau |
| | 1.3 Cynnal cofnodion sy'n berthnasol i weithdrefnau iechyd a diogelwch |
| 2. Yn gallu cynnal asesiad budd risg yn y safle gwaith chwarae | 2.1 Cyfrannu at asesiadau budd risg ysgrifenedig |
| | 2.2 Dangos defnydd o asesiad budd risg dynamig |
| | 2.2 Myfrio ynghylch ei ddefnydd ei hun o asesiad budd risg dynamig |
| 3. Yn gallu dilyn gweithdrefnau ar gyfer damweiniau, anafiadau, afiechydon ac argyfyngau eraill | 3.1 Dilyn gweithdrefnau'r safle gwaith chwarae i ddelio â damweiniau, anafiadau, arwyddion o salwch ac argyfyngau eraill |
| | 3.2 Dilyn y gofynion cyfreithiol a gweithdrefnau'r safle chwarae ar gyfer cofnodi ac adrodd am ddamweiniau, salwch, arwyddion o afiechydon, anafiadau ac argyfyngau eraill |

| Canllawiau cyflwyno ac asesu |
|--|
| <p>Mae'n rhaid asesu canlyniadau dysgu 1, 2 a 3 mewn amgylchedd gwaith go iawn.</p> <p>Gellir defnyddio efelychu ar gyfer elfennau o LO3 nad ydynt yn digwydd yn naturiol yn ystod cyfnod y cymhwyster.</p> <p>Gall 1.3 a 3.2 gyflwyno cyfleoedd asesu cyfannol yn rhannol mewn perthynas â chofnodi, adrodd a chadw cofnodion.</p> <p>Rhaid i'r aseswr gofnodi dyfarniad o gymhwysedd wrth ystyried croesgyfeirio.</p> <p>Gellid asesu'r uned hon trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • arsylwi uniongyrchol • cynhyrchion gwaith, megis: <ul style="list-style-type: none"> ○ asesiadau risg ○ ffurflenni damweiniau ○ cofnodion gwacáu oherwydd tân ○ cofnodion archwilio diogelwch dyddiol ○ adroddiadau am ddigwyddiad ○ iechyd a diogelwch ○ hysbysiadau neu wybodaeth |

Canllawiau cyflwyno ac asesu

- disgrifiad myfyriol
- disgrifiad tyst arbenigol
- trafodaeth broffesiynol ynghylch ymarfer wedi'i ategu gan gynhyrchion gwaith lle bo hynny'n berthnasol

Sylwer: Rhaid i bob cynnyrch gwaith fod yn ddilys ac wedi'i gwblhau gan y dysgwr.

Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):

- SKAPW53: Cyfrannu at iechyd, diogelwch a lles plant a phobl ifanc yn y safle gwaith chwarae
- SKAPW67: Cyfrannu at weithredu safle gwaith chwarae

L3D PW11 Datblygu a hyrwyddo perthnasoedd yn y safle gwaith chwarae (L/650/0605)

| Crynodeb o'r uned | | | | |
|---|---------------------------------------|----------------|------------------|----------------|
| Mae'r uned hon yn asesu'r cymhwysedd sydd ei angen ar weithiwr chwarae i ddatblygu a hyrwyddo perthynas waith â phlant ac oedolion mewn safle gwaith chwarae. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Gorfodol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 5 chredyd | 46 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|--|---|
| 1. Yn gallu datblygu perthynas â phlant mewn safle gwaith chwarae | 1.1 Rhyngweithio â phlant mewn ffordd sy'n eu helpu i deimlo bod croeso iddynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y safle gwaith chwarae |
| | 1.2 Cefnogi plant i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, os ydynt yn dewis |
| | 1.3 Rhyngweithio â phlant unigol mewn ffordd sy'n eu parchu nhw a'r grŵp yn ei gyfanrwydd |
| 2. Yn gallu cyfathrebu â phlant mewn safle gwaith chwarae | 2.1 Cyfathrebu â phlant mewn ffordd sy'n ymateb i'w hanghenion a'u galluoedd unigol |
| | 2.2 Gofyn cwestiynau perthnasol i blant i egluro a chadarnhau pwyntiau |
| | 2.3 Annog plant i ofyn cwestiynau, cynnig syniadau a gwneud awgrymiadau |
| 3. Yn gallu cefnogi plant i ddatblygu perthnasoedd yn y safle gwaith chwarae | 3.1 Annog plant i ddatblygu cytundebau am ffyrdd o ymddwyn a sut bydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith |
| | 3.2 Cefnogi plant i ddeall teimladau pobl eraill |
| | 3.3 Cefnogi plant y mae eraill wedi'u cynhyrfu |
| | 3.4 Cefnogi plant i ddatrys gwrthdaro drostynt eu hunain |
| 4. Yn gallu cyfathrebu ag oedolion yn y safle gwaith chwarae | 4.1 Cyfathrebu a rhyngweithio ag oedolion mewn ffordd sy'n briodol iddyn nhw |
| | 4.2 Ymateb i geisiadau oedolion am wybodaeth yn gywir o fewn ffiniau cyfrinachedd y cytunwyd arnynt |
| | 4.3 Mynd ati i wrando ar oedolion, gan ofyn cwestiynau ac egluro pwyntiau pan fo angen |
| | 4.4 Ymdrin ag anghytundebau ag oedolion mewn ffordd a fydd yn cynnal perthynas waith gadarnhaol |
| 5. Yn gallu myfyrio ar berthnasoedd yn y safle gwaith chwarae | 5.1 Myfyrio ar berthnasoedd yn safle'r gwaith chwarae a sut mae ymarfer yn ystyried llais y plentyn |

| Ystod |
|---|
| 2. Gallu cyfathrebu â phlant mewn safle gwaith chwarae |
| 2.1 Cyfathrebu: Gallai cyfathrebu gynnwys gwrando gweithredol, cyfathrebu geiriol, iaith y corff neu ystumiau i gyd-fynd ag anghenion neu alluoedd y plentyn unigol. |
| 4. Gallu cyfathrebu ag oedolion yn y safle gwaith chwarae |
| 4.1 Oedolion: Er enghraifft: <ul style="list-style-type: none">• rhieni/gofalwyr• tîm gwaith chwarae• ymwelwyr• tîm ehangach Dylai dysgwyr allu dangos parch at unigolrwydd, anghenion a dewisiadau pob oedolyn yn gyson. Dylent hefyd allu addasu dulliau cyfathrebu i ddiwallu anghenion pobl eraill. |
| 4.4 Anghytundebau: Er enghraifft: <ul style="list-style-type: none">• cwynion• cam-gyfathrebu neu fân anghytundebau Dylai dysgwyr gael gwerthfawrogiad o bolisi cwynion eu safle eu hunain. |

| Canllawiau cyflwyno ac asesu |
|---|
| Mae'n rhaid asesu canlyniadau dysgu LO 1, 2, 3 a 4 mewn amgylchedd gwaith go iawn. Os na fydd tystiolaeth sy'n digwydd yn naturiol yn cyflwyno'i hun drwy gydol y cymhwyster, gellir defnyddio efelychiad neu astudiaethau achos i ddangos cymhwysedd ar gyfer AC4.4. |
| 5.1 Dylai dysgwyr allu ystyried perthnasoedd â phlant neu oedolion eraill yn y safle gwaith chwarae, a dylid meddwl am yr hyn sy'n gweithio'n dda, heriau mewn perthnasoedd, yr hyn y gellid ei newid a sut y gwrandewir ar blant. Gellid asesu'r uned hon trwy: <ul style="list-style-type: none">• arsylwi uniongyrchol• disgrifiad myfyriol• efelychiad/astudiaeth achos (4.4 yn unig) Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC): <ul style="list-style-type: none">• SKAPW55: Cyfrannu at ddatblygu a chynnal perthynas â phlant, pobl ifanc ac eraill yn y safle gwaith chwarae |

L3D PW12 Paratoi ar gyfer chwarae plant a'i gefnogi (M/650/0606)

| Crynodeb o'r uned | | | | |
|---|---------------------------------------|----------------|-----------------|----------------|
| Mae'r uned hon yn asesu'r cymhwysedd sydd ei angen ar weithiwr chwarae baratoi ar gyfer chwarae plant a'i gefnogi, gan gynnwys cymryd risg yn eu chwarae. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Gorfodol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 4 credyd | 36 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Yn gallu dadansoddi gwybodaeth am anghenion a dewisiadau chwarae plant | 1.1 Dadansoddi gwybodaeth a gasglwyd drwy arsylwadau, rhyngweithio a methodolegau eraill nad ydynt yn amharu er mwyn myfyrio ar anghenion a dewisiadau chwarae plant |
| 2. Yn gallu cynllunio ar gyfer chwarae plant | 2.1 Cynllunio adnoddau ar gyfer y manau chwarae canlynol i ddiwallu anghenion chwarae plant, a gallueu haddasu i ddiwallu anghenion newydd, megis: <ul style="list-style-type: none"> • corfforol • affeithiol • dros dro • parhaol |
| | 2.2 Myfyrio ar sut mae ei safle gwaith chwarae ei hun yn darparu ar gyfer ystod o wahanol fathau o chwarae |
| 3. Yn gallu paratoi manau chwarae ar gyfer chwarae i blant | 3.1 Casglu a darparu adnoddau i blant |
| | 3.2 Cefnogi plant i greu manau lle gallant chwarae |
| | 3.3 Sicrhau bod manau chwarae yn hygyrch i'r holl blant sydd eisiau cymryd rhan |
| 4. Yn gallu cefnogi chwarae plant | 4.1 Annog plant i ddewis ac archwilio ystod o fannau chwarae iddynt eu hunain |
| | 4.2 Rhoi cymorth i blant wrth iddynt archwilio manau chwarae |
| | 4.3 Galluogi chwarae i ddigwydd heb dorri ar ei draws |
| | 4.4 Gadael cynnwys a bwriad y chwarae i'r plant |
| | 4.5 Ymateb i arwyddion chwarae |
| | 4.6 Cefnogi plant i ddod â chwarae i ben pan fo'n briodol |
| 5. Yn gallu cefnogi plant i gymryd risg wrth chwarae | 5.1 Galluogi plant i gymryd ac asesu risg yn ystod chwarae |
| | 5.2 Adnabod ac ymateb i'r mathau canlynol o risg pan fyddant yn digwydd: <ul style="list-style-type: none"> • corfforol • emosiynol • ymddygiadol • amgylcheddol |
| | 5.3 Hybu ymwybyddiaeth plant am beryglon |
| | 5.4 Ymyrryd mewn chwarae dim ond pan aiff lefel y risg yn annerbyniol |

| Ystod |
|---|
| 1. Gallu dadansoddi gwybodaeth am anghenion a dewisiadau chwarae plant |
| 1.1 Gwybodaeth: |
| Er enghraifft: |
| <ul style="list-style-type: none">• arsylwi ar blant yn chwarae• rhyngweithio â phlant• casglu adborth gan blant• gwybodaeth a ddarperir gan rieni/gofalwyr neu staff eraill |
| Rhaid i ddysgwyr gasglu gwybodaeth drwy o leiaf dau ddull gwahanol. |

| Canllawiau cyflwyno ac asesu |
|---|
| Mae'n rhaid asesu canlyniadau dysgu LO 1, 2, 3, 4 a 5 mewn amgylchedd gwaith go iawn. |
| Gellid asesu'r uned hon trwy: |
| <ul style="list-style-type: none">• arsylwi uniongyrchol• holi yn ystod/yn dilyn arsylwi uniongyrchol• trafodaeth broffesiynol wedi'i chynllunio• cynhyrchion gwaith i ychwanegu at drafodaeth broffesiynol (er enghraifft, cynlluniau, arsylwadau o chwarae plant, cofnodion neu adborth gan blant) |
| Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC): |
| <ul style="list-style-type: none">• SKAPW50: Creu safleoedd gwaith chwarae sy'n cefnogi chwarae hunangyfeiriedig wedi'i ddewis yn rhydd• SKAPW52: Cyfrannu at gynnal sesiadau risg yn y safle gwaith chwarae |

L3D PW13 Cefnogi cynhwysiant mewn safle gwaith chwarae (R/650/0607)

| Crynodeb o'r uned | | | | |
|---|---------------------------------------|----------------|------------------|----------------|
| Nod yr uned hon yw ystyried pwysigrwydd cynhwysiant i hunan-barch plentyn a'i ymdeimlad o berthyn. Mae'n ystyried rhwystrau rhag cynhwysiant a rôl y gweithiwr chwarae mewn perthynas â chynhwysiant yn y safle gwaith chwarae. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Gorfodol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 3 chredyd | 30 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|--|
| 1. Yn deall cynhwysiant | 1.1 Esbonio'r term cynhwysiant |
| | 1.2 Cymharu'r termau: <ul style="list-style-type: none"> • cynhwysiant • cydraddoldeb • tegwch • amrywiaeth |
| | 1.3 Esbonio modelau anabledd cymdeithasol a meddygol a'u heffeithiau ar ymarfer |
| | 1.4 Amlinellu'r ddeddfwriaeth gyfredol yn ymwneud ag anghenion ychwanegol ac anabledau |
| 2. Yn deall rôl y gweithiwr chwarae mewn perthynas â chynhwysiant | 2.1 Egluro pwysigrwydd ymarfer cynhwysol |
| | 2.2 Disgrifio ffyrdd y gall y gweithiwr chwarae gefnogi safle gwaith chwarae cynhwysol |
| 3. Yn deall rhwystrau rhag cynhwysiant | 3.1 Amlinellu rhwystrau rhag cynhwysiant y gall fod angen i'r gweithiwr chwarae eu goresgyn wrth gynllunio safle gwaith chwarae |
| | 3.2 Disgrifio ffynonellau cymorth i'r gweithiwr chwarae i sicrhau safle chwarae cynhwysol |
| 4. Yn gllu hyrwyddo safle gwaith chwarae amrywiol a chynhwysol | 4.1 Dangos sut i hybu amrywiaeth a chynhwysiant yn y safle gwaith chwarae |
| | 4.2 Hyrwyddo chwarae a chefnogi plant a allai wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan |
| | 4.3 Darparu cyfleoedd i blant ddeall a gwerthfawrogi amrywiaeth a chynhwysiant |
| 5. Yn gallu gweithio mewn ffyrdd sy'n hwyluso cynhwysiant | 5.1 Dangos ffyrdd o hwyluso ymarfer cynhwysol, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • amgylcheddol • ffyrdd o weithio • agweddol |
| | 5.2 Myfyrio ynghylch ei ymarfer cynhwysol ei hun |

Ystod

3. Deall rhwystrau rhag cynhwysiant

3.1 Rhwystrau rhag cynhwysiant:

Rhaid i ddysgwyr gynnwys o leiaf 3 rhwystr rhag cynhwysiant o blith y categorïau canlynol:

- amgylcheddol
- sefydliadol/polisi
- agweddol

Canllawiau cyflwyno ac asesu

Rhaid asesu LO4 a LO5 mewn amgylchedd gwaith go iawn

1.4 Dylai'r cyflenwi a'r asesu fodloni'r gofynion penodol fel sy'n berthnasol i'r gwledydd cartref.

Gellid asesu'r uned hon trwy:

- dasg ysgrifenedig
- arsylwi uniongyrchol
- disgrifiad myfyriol

Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):

- SKAPW51: Paratoi a hwyluso cyfleoedd chwarae penodol
- SKAPW55: Cyfrannu at ddatblygu a chynnal perthynas â phlant, pobl ifanc ac eraill yn y safle gwaith chwarae
- SCDCCLD0209: Cefnogi plentyn ag anghenion cymorth ychwanegol
- SKAPW67: Cyfrannu at weithredu safle gwaith chwarae

L3D PWOP1 Archwilio gwahanol safbwyntiau a dylanwadau ar waith chwarae (Y/650/0609)

| Crynodeb o'r uned | | | | |
|--|---------------------------------------|----------------|-----------------|----------------|
| Mae'r uned hon yn rhoi gwybodaeth sylfaenol i'r dysgwr am agweddau athronyddol at y ffordd mae plant yn chwarae. Mae'n annog dysgwyr i archwilio chwarae o wahanol safbwyntiau ac ystyried eu hymarfer gwaith chwarae eu hunain. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Dewisol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 4 credyd | 36 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|--|---|
| 1. Yn deall agweddau athronyddol sy'n dylanwadu ar ddarpariaeth chwarae | 1.1 Amlinellu gwahanol agweddau athronyddol sy'n dylanwadu ar ddarpariaeth chwarae |
| | 1.2 Esbonio sut mae agweddau athronyddol yn llywio ymarfer gwaith chwarae |
| | 1.3 Gwerthuso sut mae agweddau athronyddol at chwarae yn cefnogi ei ymarfer ei hun |
| 2. Yn gallu defnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio gwaith chwarae | 2.1 Crynhoi gwahanol safbwyntiau neu ddylanwadau ar waith chwarae |
| | 2.2 Dadansoddi gwahanol safbwynt neu ddylanwad i nodi'r manteision i blant |
| | 2.3 Cynnal archwiliad chwarae o'i ddarpariaeth ei hun mewn perthynas â safbwynt neu ddylanwad a ddewiswyd |
| | 2.4 Myfyrio ar ei ymarfer ei hun mewn perthynas ag archwiliad chwarae o'i safle ei hun |
| | 2.5 Rhannu argymhellion gyda chydweithwyr |

| Ystod |
|--|
| 1. Deall agweddau athronyddol sy'n dylanwadu ar ddarpariaeth chwarae |
| <p>1.1 Agweddau athronyddol:</p> <p>Er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Reggio Emilia • Tina Bruce • 16 math o chwarae Bob Hughes (1996) • Papur Colorado (Sturrock ac Else, 1998) • seicolegydd • llên-gwerinwr • cymdeithasegydd • biolegydd <p>Dylai dysgwyr allu rhoi trosolwg o dair agwedd athronyddol o leiaf.</p> |

Ystod

2. Gallu defnyddio ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio gwaith chwarae

2.1 a 2.2 Safbwyntiau neu ddylanwadau:

Dylai'r dysgwyr archwilio a rhoi trosolwg o dri gwahanol safbwynt neu ddylanwad o leiaf.

2.2 Ar ôl gwneud ymchwil i wahanol safbwyntiau neu ddylanwadau, gall dysgwyr ganolbwyntio'n fwy manwl ar un safbwynt neu ddylanwad gwahanol o'u dewis eu hunain, yn dibynnu ar ddiddordebau personol.

Gall enghreifftiau gynnwys, er enghraifft:

- safbwyntiau rhyngwladol chwarae
- chwarae antur
- chwarae a lles meddyliol
- chwarae ar y stryd a chwarae allan
- therapi chwarae
- pwysigrwydd chwarae ar ôl argyfwng neu drychineb
- y siarter ar gyfer chwarae plant
- dylanwadau amgylcheddol ar chwarae
- sut mae chwarae wedi newid dros y blynyddoedd a dylanwadau sy'n dod i'r amlwg
- Papur Colorado (Sturrock ac Else, 1998)

Gellir ymdrin â'r canlyniad dysgu hwn yn gyfannol fel prosiect. Rhaid cyfeirio at ffynhonnell yr ymchwil.

Canllawiau cyflwyno ac asesu

Gellid asesu'r uned hon trwy:

- disgrifiad myfyriol
- trafodaeth broffesiynol
- dasg ysgrifenedig
- gallai cynhyrchion gwaith i ategu dystiolaeth gynnwys archwiliad chwarae neu gofnodion o gyfarfodydd sy'n dangos sut y rhennir argymhellion

Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):

- SKAPW82: Dadansoddi, a chefnogi chwarae hunangyfeiriedig yn unol â damcaniaethau gwaith chwarae cyfredol
- SKAPW96: Ymchwilio, cynllunio a hwyluso posibiliadau ar gyfer chwarae hunangyfeiriedig

L3D PWOP2 Trefnu teithio i blant (F/650/0610)

| Crynodeb o'r uned | | | | |
|---|---------------------------------------|----------------|------------------|----------------|
| Mae'r uned hon yn rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen i drefnu teithio i blant. Gall hyn gynnwys teithiau oddi ar y safle neu deithio yn ôl ac ymlaen i'r safle gwaith chwarae. Mae'n gofyn deall sut i gynllunio a threfnu trefniadau teithio a chefnogi plant yn ystod teithio. Mae hefyd angen i ddysgwyr ddangos eu cymhwysedd o ran trefnu a goruchwylio teithio. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Dewisol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 2 chredyd | 16 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|--|---|
| 1. Yn deall gofynion, polisïau a gweithdrefnau rheoleiddio ar gyfer trefnu teithio plant y tu allan i'r amgylchedd chwarae | 1.1 Esbonio gofynion rheoleiddio ar gyfer teithio plant y tu allan i'r amgylchedd chwarae |
| | 1.2 Deall polisïau a gweithdrefnau sefydliad ar gyfer teithio plant y tu allan i'r safle gwaith chwarae |
| 2. Yn deall sut i wneud trefniadau teithio | 2.1 Disgrifio paratodau nodweddiadol wrth gynllunio gwahanol ffactorau ar gyfer teithio gyda phlant |
| | 2.2 Nodi materion a all ddigwydd yn ystod amrywiaeth o siwrneiau |
| | 2.3 Disgrifio trefniadau hapddigwyddiad sy'n briodol ar gyfer materion a all godi wrth deithio gyda phlant |
| | 2.4 Disgrifio adnoddau neu drefniadau ychwanegol all fod yn angenrheidiol wrth gynllunio teithio i blant ag anghenion ychwanegol ac anabledau |
| | 2.5 Egluro pwysigrwydd darparu gwybodaeth glir, gywir a chyfredol am drefniadau teithio mewn da bryd i'r bobl berthnasol |
| | 2.6 Esbonio pa gofnodion sydd angen eu cadw, a phwysigrwydd gwneud hynny |
| 3. Yn deall sut i gefnogi teithio plant y tu allan i'r safle gwaith chwarae | 3.1 Esbonio gwahanol ofynion iechyd a diogelwch sydd eu hangen wrth weithredu y tu allan i'r safle gwaith chwarae |
| | 3.2 Esbonio sut mae sicrhau bod plant yn ymadael ac yn dod yn ddiogel ac yn amserol |
| | 3.3 Amlinellu pwysigrwydd dilyn cynlluniau y cytunwyd arnynt |
| | 3.4 Esbonio sut i sicrhau bod offer, eiddo a dogfennau teithio yn ddiogel yn ystod y daith |
| | 3.5 Disgrifio sut i gytuno ar ffyrdd o gadw'n ddiogel wrth deithio gyda phlant |
| | 3.6 Disgrifio teimladau ac ymddygiad y gall plant gael profiad ohonynt wrth symud rhwng gwahanol leoedd |
| | 3.7 Amlinellu sut y gallai'r gweithiwr chwarae gefnogi teimladau ac ymddygiad plant ynglŷn â theithio |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|--|---|
| 4. Yn gallu trefnu a goruchwylio teithio plant | 4.1 Cynllunio trefniadau ar gyfer teithio |
| | 4.2 Cefnogi plant i ddilyn gweithdrefnau ar gyfer teithio |
| | 4.3 Ymdrin ag anawsterau sy'n codi mewn ffordd sy'n cynnal diogelwch a lles y rhai sy'n cymryd rhan |
| | 4.4 Cadw cofnodion wedi'u diweddarau yn ymwneud â theithio |
| | 4.5 Myfyrio ynghylch ei rôl ei hun yn ymwneud â threfnu a goruchwylio teithio plant |

| Ystod |
|---|
| <p>2. Deall sut i wneud trefniadau teithio</p> <p>2.1 Ffactorau:</p> <p>Gallent gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • diogelwch • diogeledd • llwybr/camau'r daith • anghenion unigol plant • effeithlonrwydd • cost-effeithiolrwydd • cysur • pryder am yr amgylchedd <p>2.2 Ystod o siwrneiau:</p> <p>Gallent gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ar droed • ar gludiant cyhoeddus • ar gludiant wedi'i logi • eu cludiant eu hunain <p>Rhaid i ddysgwyr nodi o leiaf 5 mater a all ddigwydd yn ystod amrywiaeth o siwrneiau.</p> <p>2.5 Pobl berthnasol:</p> <p>Gallent gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • plant • staff gwaith chwarae • oedolion eraill, megis gweithwyr proffesiynol allanol • rhieni • gwirfoddolwyr a staff cefnogi |

Ystod

4. Gallu trefnu a goruchwyllo teithio plant

4.1 Trefniadau:

Rhaid cynnwys:

- dull cludiant
- llwybr
- amseriadau
- mathau o ganiatâd
- cyfnodau yn y siwrnai
- goruchwyliaeth
- iechyd a diogelwch
- offer neu adnoddau
- hapddigwyddiadau

Canllawiau cyflwyno ac asesu

Rhaid asesu canlyniad dysgu LO4 mewn amgylchedd gwaith go iawn.

1.2 Dylai dysgwyr allu esbonio polisiau a gweithdrefnau eu sefydliad eu hunain. Os nad oes polisi, dylai dysgwyr ymchwilio i enghreifftiau a gallu esbonio beth ddylai polisiau a gweithdrefnau o'r fath eu cwmpasu.

4.3 Gellir defnyddio efelychu ar gyfer AC4.3 os nad oes tystiolaeth sy'n digwydd yn naturiol yn ystod y cymhwyster.

Gellid asesu'r uned hon trwy:

- dasg ysgrifenedig
- arsylwi uniongyrchol
- datganiad tyst
- trafodaeth broffesiynol
- disgrifiad myfyriol
- cynhyrchion gwaith, er enghraifft:
 - cofnodion cynllunio
 - asesiadau risg
 - mathau o ganiatâd
- rhaid i dystiolaeth cynnyrch gwaith gael ei chynhyrchu gan y dysgwr fel rhan o'i ymarfer gwaith go iawn

Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):

- SKAPW60: Cefnogi plant a phobl ifanc wrth deithio'r tu allan i'r safle gwaith chwarae
- SKAOP15: Trefnu teithio a'i oruchwyllo

L3D PWOP3 Hyrwyddo eich sefydliad gwaith chwarae eich hun (H/650/0611)

| Crynodeb o'r uned | | | | |
|--|---------------------------------------|----------------|------------------|----------------|
| Mae'r uned hon yn darparu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i hyrwyddo eich sefydliad eich hun, chwarae a gwaith chwarae yn y gymuned ehangach. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Dewisol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 2 chredyd | 16 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|--|--|
| 1. Yn deall sut i hyrwyddo'isefydliad ei hun | 1.1 Crynhoi'r polisiau a'r arferion sefydliadol y mae angen eu cadw mewn cof wrth hyrwyddo'i sefydliad ei hun |
| | 1.2 Esbonio pam mae'n bwysig hyrwyddo'i sefydliad ei hun a'i werthoedd, ei bwrpas a'i ddulliau yn eang |
| | 1.3 Egluro pwysigrwydd cyrraedd rhannau o'r gymuned sy'n draddodiadol yn wynebu rhwystrau rhag cynhwysiant |
| | 1.4 Disgrifio gwahanol ddulliau o gyfathrebu y gellid eu defnyddio i hyrwyddo'i sefydliad ei hun |
| | 1.5 Esbonio pam mae'n bwysig cael adborth ar fentrau sefydliadol gan bobl yn y gymuned leol |
| | 1.6 Esbonio sut i gael adborth gan y gwahanol grwpiau yn y gymuned leol a beth i'w wneud á'r adborth hwnnw |
| 2. Yn deall gwerth hyrwyddo chwarae a gwaith chwarae | 2.1 Disgrifio manteision gwaith chwarae i'r gymuned leol |
| | 2.2 Esbonio sut i hyrwyddo chwarae a gwaith chwarae mewn ffordd sy'n mynd i'r afael â rhagdybiaethau a safbwyntiau pobl eraill |
| 3. Yn gallu hyrwyddo ei sefydliad ei hun | 3.1 Adnabod cyfleoedd addas i hyrwyddo'i sefydliad ei hun i bobl yn y gymuned leol |
| | 3.2 Cyfathrebu'r agweddau canlynol ar waith ei sefydliad ei hun: <ul style="list-style-type: none"> • pwrpas • gwerthoedd • dulliau • buddion i'r gymuned ehangach |
| | 3.3 Cyfleu gwybodaeth sefydliadol drwy'r moddau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • geiriol • ysgrifenedig • delweddau |
| | 3.4 Hyrwyddo gwaith ei sefydliad ei hun mewn ffordd sy'n gyson â pholisiau ac arferion sefydliadol |
| | 3.5 Myfyrio ar ymarfer mewn perthynas â hyrwyddo chwarae a gwaith chwarae |

Ystod

1. Deall sut i hyrwyddo'i sefydliad ei hun

1.3 Rhannau:

Gall hyn gynnwys:

- teithwyr
- rhieni sengl
- grwpiau ethnig
- grwpiau anodd eu cyrraedd

Canllawiau cyflwyno ac asesu

Rhaid asesu canlyniad dysgu LO3 mewn amgylchedd gwaith go iawn. Ni chaniateir efelychu.

Gellid asesu'r uned hon trwy:

- dasg ysgrifenedig
- trafodaeth broffesiynol
- disgrifiad myfyriol
- arsylwi uniongyrchol (ac yna sesiwn holi ac ateb os oes angen)
- cynhyrchion gwaith (er enghraifft, deunydd hyrwyddo a ddatblygwyd gan y dysgwr)

Gallai'r rhain lywio trafodaeth broffesiynol ehangach, a gellir eu defnyddio hefyd i gryfhau'r arsylwi uniongyrchol.

Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):

- SKAPW78: Cyfleu a hyrwyddo'r gwaith sy'n cael ei wneud yn eich safle gwaith chwarae
- SKAPW79: Gweithio gydag eraill y tu allan i'ch safle gwaith chwarae

L3D PWOP4 Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau ac unigolion eraill (J/650/0612)

| Crynodeb o'r uned | | | | |
|---|---------------------------------------|----------------|------------------|----------------|
| Mae'r uned hon yn ymwneud â chydweithio â sefydliadau eraill, asiantaethau, a gweithwyr proffesiynol. Mae'r uned hon ar gyfer unigolion sydd â rhywfaint o gyfrifoldeb am y safle gwaith chwarae a'r staff. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Dewisol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 2 chredyd | 16 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|--|---|
| 1. Yn deall sut i ddatblygu a chynnal cysylltiadau â sefydliadau ac unigolion eraill | 1.1 Disgrifio cyd-fanteision cydweithio ag eraill |
| | 1.2 Rhestru ystod o sefydliadau a mathau o unigolion y byddai'n gynhyrchiol gweithio gyda nhw |
| | 1.3 Disgrifio'r ffactorau sy'n bwysig i sefydlu a chynnal perthynas waith effeithiol â sefydliadau ac unigolion eraill |
| 2. Yn deall sut i gydweithio â sefydliadau ac unigolion eraill | 2.1 Esbonio pwysigrwydd cytuno'n glir ar y nodau, yr amcanion a'r paramedrau sy'n ymwneud â chydweithio |
| | 2.2 Egluro pwysigrwydd cadw cysylltiad â'r unigolion dan sylw ac adolygu cynnydd gyda hwy |
| | 2.3 Esbonio'r mathau o anawsterau a all ddigwydd wrth gydweithio a sut i ddelio â'r rhain |
| | 2.4 Esbonio pwysigrwydd rhoi gwybod i sefydliadau ac unigolion eraill yn brydlon am unrhyw drafferthion wrth gydweithio |
| | 2.5 Esbonio pwysigrwydd ysgwyddo dim ond cyfrifoldebau sy'n ymarferol ac o fewn eich galluedd |
| 3. Yn gallu sefydlu perthnasoedd gwaith â sefydliadau ac unigolion perthnasol eraill | 3.1 Nodi sefydliadau ac unigolion eraill y byddai'n gynhyrchiol gweithio gyda nhw |
| | 3.2 Sefydlu cyswllt ag unigolion perthnasol mewn sefydliadau eraill |
| | 3.3 Cytuno ar ddulliau o gyfnewid gwybodaeth a chynnal cyswllt yn y dyfodol |
| | 3.4 Cyfnewid gwybodaeth berthnasol gyda sefydliadau ac unigolion eraill pan fydd o fudd i'r rhai dan sylw |

Canllawiau cyflwyno ac asesu

Rhaid asesu canlyniad dysgu LO3 mewn amgylchedd gwaith go iawn.

Gellid asesu'r uned hon trwy:

- dasg ysgrifenedig
- trafodaeth broffesiynol
- disgrifiad myfyriol
- arsylwi uniongyrchol
- cynhyrchion gwaith (er enghraifft, deunyddiau hyrwyddo wedi'u cynhyrchu gan y dysgwr a allai lywio trafodaeth broffesiynol, tystiolaeth o gyfathrebu â sefydliadau eraill)

Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):

- SKAPW79: Gweithio gydag eraill yn allanol i'ch safle gwaith chwarae

L3D PWOP5 Gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol ac anableddau mewn safle gwaith chwarae (K/650/0613)

| Crynodeb o'r uned | | | | |
|--|---------------------------------------|----------------|-----------------|----------------|
| <p>Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau gweithiwr chwarae wrth gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau mewn safle gwaith chwarae. Y ffocws yw meithrin ymhellach yr wybodaeth bresennol a gafwyd drwy'r unedau gorfodol. Anelir yr uned hon at weithwyr chwarae sydd â chyfrifoldeb o fewn y safle gwaith chwarae. Gall gweithwyr chwarae fod yn gweithio mewn safle arbenigol, yn rhoi cymorth un i un mewn safle gwaith chwarae, neu'n gweithio ochr yn ochr ag eraill i gefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac anableddau.</p> | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Dewisol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 4 credyd | 36 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|--|
| 1. Yn gallu datblygu ymarfer chwarae cynhwysol | 1.1 Cyfrannu at ddatblygu, adolygu a chynnal polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau cynhwysol gyda: <ul style="list-style-type: none"> • staff • rhieni/gofalwyr • plant |
| | 1.2 Cefnogi eraill i fyfyrion ar eu hymarfer cynhwysol |
| | 1.3 Cefnogi eraill i rannu arfer da mewn perthynas â chynhwysiant |
| | 1.4 Esbonio manteision safle gwaith chwarae cynhwysol gan gyfeirio at ei ymarfer ei hun |
| 2. Yn gallu helpu i ddatblygu amgylchedd sy'n cefnogi chwarae cynhwysol | 2.1 Sicrhau bod adnoddau a mynediad amgylcheddol yn diwallu anghenion plant anabl o fewn fframwaith deddfwriaethol |
| | 2.2 Herio agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol gyda phlant, pobl ifanc ac oedolion |
| 3. Yn gallu cynnal gwaith chwarae gyda phlant ag anghenion ychwanegol ac anableddau | 3.1 Canfod anghenion a dewisiadau chwarae penodol plant |
| | 3.2 Cydnabod a dehongli arwyddion chwarae gan blant ag anghenion ychwanegol ac anableddau |
| | 3.3 Cefnogi chwarae ynghylch diddordebau a galluoedd plant unigol sydd ag anghenion ychwanegol ac anableddau |
| | 3.4 Addasu adnoddau a'r amgylchedd i estyn posibiliadau chwarae i blant ag anghenion ychwanegol ac anableddau |
| | 1.7 Defnyddio ymyriadau priodol i ganiatáu i blentyn ag anghenion ychwanegol ac anableddau gymryd rhan mewn chwarae sy'n cael ei ddewis yn rhydd ac sy'n hunangyfeiriedig |
| | 3.6 Cefnogi chwarae i ddod i ben mewn ffordd sy'n sensitif i anghenion penodol plant |
| 4. Yn gallu adolygu ymarfer chwarae cynhwysol | 2.1 Gwerthuso'r ddarpariaeth chwarae mewn perthynas â chynhwysiant |
| | 4.2 Gwneud argymhellion i wella ffyrdd cynhwysol o weithio |

Ystod

1. Gallu datblygu ymarfer chwarae cynhwysol

1.2 Eraill:

Gall hyn gynnwys aelodau eraill o'r tîm neu wirfoddolwyr.

Canllawiau cyflwyno ac asesu

Dylai'r ddarpariaeth a'r asesiad fodloni'r gofynion penodol fel sy'n berthnasol i'r gwledydd cartref.

Mae'n rhaid asesu canlyniadau dysgu 1, 2, 3 a 4 mewn amgylchedd gwaith go iawn.

Gellid asesu'r uned hon trwy:

- ddisgrifiad myfyriol
- tasg ysgrifenedig
- arsylwi uniongyrchol
- trafodaeth broffesiynol

Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):

- SKAPW86: Hwyluso ymarfer gwaith chwarae cynhwysol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc anabl

L3D PWOP6 Gweithio gyda rhieni, gofalwyr a theuluoedd (L/650/0614)

| Crynodeb o'r uned | | | | |
|--|---------------------------------------|----------------|-----------------|----------------|
| Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i sefydlu a chynnal perthynas waith â rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn y safle gwaith chwarae. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Dewisol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 4 credyd | 36 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|--|
| 1. Yn deall egwyddorion gweithio gyda rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn y safle gwaith chwarae | 1.1 Disgrifio perthynas waith dda â rhieni, gofalwyr a theuluoedd |
| | 1.2 Esbonio pam mae perthynas waith dda â rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn bwysig i waith chwarae effeithiol |
| | 1.3 Disgrifio ffyrdd o helpu rhieni, gofalwyr a theuluoedd i deimlo bod croeso iddynt a'u bod wedi'u gwerthfawrogi yn y safle gwaith chwarae |
| | 1.4 Nodi ystod o faterion sy'n effeithio ar rieni, gofalwyr a theuluoedd, gan gynnwys pwysau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd |
| | 1.5 Disgrifio gwahanol anghenion a disgwyliadau y gallai rhieni, gofalwyr a theuluoedd eu cael mewn perthynas â'r safle gwaith chwarae |
| | 2.4 Esbonio sut mae cydbwysu dymuniadau rhieni, gofalwyr a theuluoedd gyda gweithdrefnau a pholisïau cytunedig y safle a hawliau'r plentyn |
| | 1.7 Disgrifio ystod o sefyllfaoedd a allai achosi gwrthdaro â rhieni, gofalwyr a theuluoedd sy'n defnyddio'r safle gwaith chwarae |
| | 1.8 Disgrifio sut mae sicrhau rhieni, gofalwyr a theuluoedd plant sy'n wynebu rhwystrau rhag mynediad fod yr amgylchedd yn gynhwysol ac yn eu croesawu |
| | 1.9 Egluro gweithdrefn gwyno ei sefydliad ei hun |
| 2. Yn deall sut i gyfathrebu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd | 2.1 Amlinellu pwysigrwydd cyfathrebu clir â rhieni, gofalwyr a theuluoedd |
| | 2.2 Disgrifio ystod o ffyrdd o gyfathrebu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd |
| | 2.3 Disgrifio'r rhwystrau posibl rhag cyfathrebu y gallai rhai rhieni, gofalwyr a theuluoedd eu hwynebu |
| | 2.4 Disgrifio strategaethau y gallai gweithiwr chwarae eu defnyddio i oresgyn anawsterau cyfathrebu gyda rhieni, gofalwyr a theuluoedd |
| | 2.5 Egluro pwysigrwydd cyswllt rheolaidd a pharhaus â rhieni, gofalwyr a theuluoedd |
| | 1.7 Egluro pwysigrwydd cyfrinachedd a sut mae cydbwysu'r angen i barchu wybodaeth gyfrinachol am rieni, gofalwyr a theuluoedd gyda lles y plentyn |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|--|---|
| 3. Yn gwybod sut i gynnwys rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn y safle gwaith chwarae | 3.1 Disgrifio mathau o gyfleoedd y gallai rhieni, gofalwyr a theuluoedd gymryd rhan ynddynt yn y safle gwaith chwarae 3.2 Disgrifio sut i roi gwybod i rieni, gofalwyr a theuluoedd am gyfleoedd i gymryd rhan yn y safle gwaith chwarae 3.3 Trafod manteision a heriau cynnwys rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn y safle gwaith chwarae 3.4 Esbonio polisïau a gweithdrefnau sefydliadau ar gyfer cynnwys rhieni, gofalwyr a theuluoedd 3.5 Esbonio pwysigrwydd rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn deall ac yn cefnogi polisïau'r safle gwaith chwarae 3.6 Crynhoi'r mathau o ganllawiau, gwybodaeth a chymorth y gall fod eu hangen ar rieni, gofalwyr a theuluoedd i gymryd rhan yn y safle gwaith chwarae |
| 4. Yn gallu cynnal perthynas â rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn y safle gwaith chwarae | 4.1 Cychwyn perthynas â rhieni, gofalwyr a theuluoedd mewn ffordd sy'n eu helpu i deimlo bod croeso iddynt 4.2 Parchu dymuniadau rhieni, gofalwyr a theuluoedd o fewn cyfyngiadau gweithdrefnau, gwerthoedd a hawliau plant y cytunwyd arnynt 4.3 Ymateb i gwynion ac awgrymiadau yn ôl gweithdrefnau sefydliadol 4.4 Rhannu gwybodaeth yn ôl polisïau a gweithdrefnau cyfrinachedd |
| 5. Yn gallu cyfathrebu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd o fewn y safle gwaith chwarae | 5.1 Arddangos defnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu effeithiol wrth ymgysylltu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd 5.2 Gwrando ar bryderon rhieni, gofalwyr a theuluoedd 5.3 Ymateb i anghytundebau neu wahaniaeth barn gyda rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn ôl gweithdrefnau sefydliadol 5.4 Rhannu ei weithredoedd a'i ddewisiadau ei hun fel gweithiwr chwarae gyda rhieni, gofalwyr a theuluoedd, gan roi rhesymau 5.5 Rhoi ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni, gofalwyr a theuluoedd gan wasanaethau, asiantaethau neu weithwyr proffesiynol eraill pan fo angen 5.6 Myfyrio ar ymarfer wrth gyfathrebu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd |
| 6. Yn gallu cefnogi cynnwys rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn y safle gwaith chwarae | 6.1 Cyfleu mathau o bosibiliadau i rieni, gofalwyr, a theuluoedd gymryd rhan yn y safle gwaith chwarae 6.2 Helpu rhieni, gofalwyr a theuluoedd i gymryd rhan weithredol yn y safle chwarae 6.3 Helpu rhieni, gofalwyr a theuluoedd i ddeall gwerthoedd a pholisïau'r safle gwaith chwarae 6.4 Myfyrio ynghylch cynnwys rhieni, gofalwyr a theuluoedd yn y safle gwaith chwarae |

| Ystod |
|--|
| 5 Gallu cyfathrebu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd o fewn y safle gwaith chwarae |
| 5.1 Cyfathrebu effeithiol: |
| Gallent gynnwys: |
| <ul style="list-style-type: none">• cynnal sgysiau ar adegau priodol• darparu gwybodaeth glir a chywir• cadarnhau bod rhieni, gofalwyr a theuluoedd wedi deall beth oedd yn cael ei gyfathrebu• parchu amrywiaeth• parchu cyfrinachedd |
| Canllawiau cyflwyno ac asesu |
| Mae'n rhaid asesu canlyniadau dysgu 4, 5 a 6 mewn amgylchedd gwaith go iawn. |
| 1.4 Rhaid i ddysgwyr nodi o leiaf dau fater sy'n effeithio ar rieni a gofalwyr o bob un o'r pwysau canlynol: |
| <ul style="list-style-type: none">• cymdeithasol• diwylliannol• economaidd |
| 1.5 Rhaid i ddysgwyr ddisgrifio o leiaf tri gwahanol angen a disgwyliad i gyd. |
| 1.7 Rhaid i ddysgwyr ddisgrifio o leiaf tair sefyllfa a all achosi gwrthdaro. |
| 2.2 Rhaid i ddysgwyr ddisgrifio o leiaf pedair ffordd o gyfathrebu â rhieni, gofalwyr a theuluoedd. |
| 3.1 Rhaid i ddysgwyr ddisgrifio o leiaf tri math o gyfleoedd. |
| LO6: Nid oes angen o reidrwydd i rieni, gofalwyr a theuluoedd fynychu safle gwaith chwarae i gymryd rhan. Bydd dysgwyr yn cael eu hannog i ystyried ffyrdd amrywiol y gall rhieni, gofalwyr a theuluoedd gefnogi'r safle gwaith chwarae neu gymryd rhan ynddo. |
| Gellir defnyddio efelychu ar gyfer AC4.3 ac AC5.3 os nad oes tystiolaeth sy'n digwydd yn naturiol ar gael. |
| Gellid asesu'r uned hon trwy: |
| <ul style="list-style-type: none">• dasg ysgrifenedig• trafodaeth broffesiynol• disgrifiad myfyriol• arsylwi uniongyrchol (ac yna sesiwn holi ac ateb os oes angen)• cynhyrchion gwaith o'r amgylchedd gwaith go iawn (er enghraifft, tystiolaeth o gyfathrebu â rhieni)• efelychiad (AC4.3 ac AC5.3 yn unig) |
| Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC): |
| <ul style="list-style-type: none">• SKAPW55: Cyfrannu at ddatblygu a chynnal perthynas â phlant, pobl ifanc ac eraill yn y safle gwaith chwarae |

L3D PWOP7 Deall gwaith tîm ar gyfer ymarfer gwaith chwarae o ansawdd (M/650/0615)

| Crynodeb o'r uned | | | | |
|--|---------------------------------------|----------------|------------------|----------------|
| Bydd yr uned hon yn archwilio'r rolau a'r cyfrifoldebau a geir mewn tîm ar gyfer ymarfer effeithiol mewn gwaith chwarae. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Dewisol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 2 chredyd | 16 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|--|--|
| 1. Yn deall nodweddion sy'n ymwneud ag ymarfer gwaith chwarae effeithiol | 1.1 Nodi nodweddion gwaith tîm effeithiol |
| | 1.2 Disgrifio manteision gwaith tîm effeithiol ar gyfer ymarfer gwaith chwarae |
| | 1.3 Esbonio ffyrdd o oresgyn rhwystrau posibl rhag gwaith tîm |
| | 1.4 Dadansoddi effaith gwaith tîm ar enw da gwaith chwarae |
| 2. Yn deall sut i gyfrannu at waith tîm gwaith chwarae | 2.1 Esbonio pam mae gwaith tîm effeithiol, cynhwysol yn bwysig a sut mae'n cyfrannu at ansawdd y ddarpariaeth |
| | 2.2 Esbonio pam mae'n bwysig cyflawni cyfrifoldebau a dyletswyddau cytunedig a beth all ddigwydd os na wneir hyn |
| | 2.3 Disgrifio'r mathau o sefyllfaoedd lle dylid gofyn am gymorth ychwanegol gan gydweithwyr |
| 3. Yn deall sut i roi cymorth i gydweithwyr mewn tîm gwaith chwarae | 3.1 Egluro pam mae'n bwysig rhoi adborth a chydabyddiaeth adeiladol i gydweithwyr |
| | 3.2 Esbonio pam mae'n bwysig rhannu gwybodaeth, a sut mae gwneud hyn yn effeithiol |
| | 3.3 Esbonio pam y dylid herio gwahaniaethu a rhagfarn, a sut mae gwneud hynny'n effeithiol ac yn adeiladol |
| | 3.4 Nodi sefyllfaoedd lle gall gwrthdaro ddigwydd mewn tîm |
| | 3.5 Disgrifio sut mae gwrthdaro'n cael ei reoli wrth gadw at weithdrefnau sefydliadol |
| 4. Yn deall theori mewn ymarfer gwaith tîm | 4.1 Crynhoi modelau damcaniaethol: <ul style="list-style-type: none"> • Belbin • Tuckman |
| | 4.2 Dadansoddi model damcaniaethol gan gyfeirio at ymarfer gwaith chwarae |
| | 4.3 Nodi sefyllfaoedd pan allai fod angen i weithiwr chwarae weithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill |
| | 4.4 Esbonio rôl y gweithiwr chwarae wrth weithio fel rhan o dîm aml-ddisgyblaeth |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|--|--|
| 5. Yn gallu cyfrannu at waith tîm gwaith chwarae | 5.1 Cynnal perthynas â'r cydweithwyr canlynol mewn ffordd sy'n helpu'r tîm i weithio'n effeithiol: <ul style="list-style-type: none"> • y rhai sy'n gweithio ar yr un lefel • rheolwyr llinell • staff eraill |
| | 5.2 Egluro dyletswyddau a chyfrifoldebau gyda'r cydweithiwr perthnasol |
| | 5.3 Amrywio dyletswyddau a chyfrifoldebau a gytunwyd mewn cydweithrediad â chydweithwyr perthnasol |
| | 5.4 Gofyn am gymorth ychwanegol pan fo angen |
| | 5.5 Gwneud awgrymiadau cadarnhaol a realistig ynglŷn â sut y gellir gwella gwaith y tîm gwaith chwarae |
| | 5.6 Rhoi gwybod am gynnydd ac anawsterau i gydweithwyr perthnasol |
| | 5.7 Cynnig cymorth i gydweithwyr pan fydd ei angen arnynt |
| | 5.8 Cyfathrebu â chydweithwyr, ar lafar ac yn ysgrifenedig, gan sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt |
| | 5.9 Cynnig awgrymiadau i wella ymarfer |
| | 5.10 Myfyrio ar ei rôl ei hun yn gweithio fel rhan o dîm gwaith chwarae |

| Canllawiau cyflwyno ac asesu |
|---|
| <p>Rhaid asesu canlyniad dysgu LO5 mewn amgylchedd gwaith go iawn.</p> <p>Gellid asesu'r uned hon trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dasg ysgrifenedig • trafodaeth broffesiynol wedi'i chynllunio • arsylwi uniongyrchol ac yna trafodaeth neu holi yn ôl y gofyn <p>Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):</p> <ul style="list-style-type: none"> • SKAPW55: Cyfrannu at ddatblygu a chynnal perthynas â phlant, pobl ifanc ac eraill yn y safle gwaith chwarae |

L3D PWOP8 Deall sut i gyfrannu at weithredu safle gwaith chwarae (A/650/1717)

| Crynodeb o'r uned | | | | |
|---|---------------------------------------|----------------|-----------------|----------------|
| Mae'r uned hon yn rhoi gwybod i'r dysgwr sut i gyfrannu at weithredu safle gwaith chwarae. Mae'n ystyried dulliau arwain a rheoli, monitro'r safle gwaith chwarae, cyllidebu a recriwtio. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Dewisol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 2 gredyd | 16 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 1. Yn deall dulliau arwain a rheoli | 1.1 Nodi ystod o wahanol ddulliau arwain a rheoli |
| | 1.2 Disgrifio sut i gymhwyso dulliau arwain a rheoli i sefyllfaeod gwahanol |
| 2. Yn deall recriwtio staff mewn safle gwaith chwarae | 2.1 Crynhoi ffactorau sy'n cyfrannu at drosiant staff yn y sector gwaith chwarae |
| | 2.2 Esbonio pwrpas disgrifiadau swydd a manylebau person ar gyfer cyflogaeth mewn safle gwaith chwarae |
| | 2.3 Esbonio'r broses gynefino ar gyfer staff gwaith chwarae newydd |
| 3. Yn deall cadw cofnodion mewn safle gwaith chwarae | 3.1 Crynhoi gofynion deddfwriaeth diogelu data |
| | 3.2 Nodi cofnodion sydd angen eu cadw mewn safle gwaith chwarae |
| | 3.3 Disgrifio sut i gadw cofnodion yn unol â pholisïau a gweithdrefnau sefydliadol |
| | 3.4 Disgrifio'r wybodaeth y mae angen ei chasglu am blant a'u teuluoedd, a pham |
| | 3.5 Crynhoi'r mathau o wybodaeth y gall fod angen ei throsglwyddo a pham dylid ymdrin â cheisiadau yn brydlon |
| 4. Yn deall cyllidebu | 4.1 Egluro pwysigrwydd ymgynghori ag eraill wrth baratoi cyllideb |
| | 4.2 Crynhoi gwahanol ffyrdd o gael cyllid i'r safle |
| 5. Yn myfyrio ynghylch ei ymarfer ei hun | 5.1 Myfyrio ynghylch ei anghenion datblygu ei hun mewn perthynas â gweithredu safle gwaith chwarae |

| Canllawiau cyflwyno ac asesu |
|--|
| Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC): |
| <ul style="list-style-type: none"> • SKAPW67: Cyfrannu at weithredu safle gwaith chwarae • SKAPW76: Rheoli staff yn y safle gwaith chwarae |

L3D PWOP9 Darparu bwyd a diod mewn safle gwaith chwarae (D/650/1718)

| Crynodeb o'r uned | | | | |
|--|---------------------------------------|----------------|------------------|----------------|
| Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth a'r sgiliau y bydd eu hangen ar weithiwr chwarae er mwyn darparu bwyd a diod mewn safle gwaith chwarae. Mae'n ymdrin â dealltwriaeth o faeth ac anghenion dietegol penodol yn ogystal â pholisïau a chanllawiau sefydliadol sy'n ymwneud â darparu bwyd a diod. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Dewisol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 2 chredyd | 16 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|--|---|
| 1. Yn deall gofynion rheoleiddiol a sefydliadol ar gyfer darparu bwyd a diod mewn safle gwaith chwarae | 1.1 Crynhoi gofynion rheoleiddiol sy'n ymwneud â storio, paratoi a gweini bwyd a diod |
| | 1.2 Gwerthuso polisïau sefydliadol ynghylch darparu bwyd a diod yn unol â chanllawiau cenedlaethol |
| 2. Yn deall effaith maeth ar iechyd, lles a chwarae plant | 2.1 Amlinellu'r berthynas rhwng maeth ac iechyd a lles plant |
| | 2.2 Esbonio effaith bwyd a diod ar chwarae plant |
| 3. Yn gwybod sut i ddarparu bwyd a diod mewn safle gwaith chwarae | 3.1 Disgrifio gwahanol anghenion dietegol sydd gan rai plant |
| | 3.2 Esbonio pwysigrwydd canfod a chofnodi anghenion dietegol penodol plant |
| | 1.5 Esbonio pwysigrwydd plant yn cymryd rhan yn y broses o ddewis, paratoi, gweini a chlirio bwyd a diod, pan fyddant yn dymuno |
| | 3.4 Nodi peryglon diogelwch bwyd posibl mewn safle gwaith chwarae |
| | 3.5 Disgrifio ffyrdd y gall safle gwaith chwarae leihau gwastraff sy'n ymwneud â darparu bwyd |
| 4. Yn gallu darparu bwyd a diod yn y safle gwaith chwarae | 4.1 Adnabod a chofnodi anghenion dietegol penodol plant |
| | 4.2 Asesu risg y broses o gynnwys plant wrth baratoi bwyd a diod |
| | 2.6 Dangos sut mae dulliau storio a pharatoi bwyd yn bodloni gofynion sefydliadol a chyfreithiol |
| | 2.5 Cynnwys plant sydd am gymryd rhan yn y prosesau paratoi, gweini a chlirio bwyd a diod |

| Ystod |
|---|
| 3. Gwybod sut i ddarparu bwyd a diod mewn safle gwaith chwarae |
| 3.1 Dietegol: Er enghraifft: <ul style="list-style-type: none">• diwylliannol• meddygol• hoffter• dewis ffordd o fyw |
| Canllawiau cyflwyno ac asesu |
| Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC): <ul style="list-style-type: none">• SKAPW58: Darparu bwyd a diod mewn safle gwaith chwarae |

L3D PWOP10 Hwyluso meysydd chwarae antur (F/650/1719)

| Crynodeb o'r uned | | | | |
|---|---------------------------------------|----------------|------------------|----------------|
| Mae'r uned hon yn rhoi dealltwriaeth i'r dysgwr o feysydd chwarae antur. Mae gofyn i ddysgwyr ddangos eu sgiliau mewn amgylchedd gwaith go iawn ac felly mae angen rhoi tystiolaeth o gymhwysedd mewn maes chwarae antur. | | | | |
| Asesiad | | | | |
| Asesir yr uned hon yn fewnol drwy bortffolio o dystiolaeth. | | | | |
| Dewisol | Wedi cyflawni/heb gyflawni eto | Lefel 3 | 2 chredyd | 16 ODDA |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|--|--|
| 1. Yn deall ethos meysydd chwarae antur | 1.1 Amlinellu ethos meysydd chwarae antur |
| 2. Yn deall sut i gefnogi maes chwarae antur cynaliadwy | 2.1 Disgrifio sut i gefnogi cynaliadwyedd mewn maes chwarae antur |
| 3. Yn deall iechyd, diogelwch a lles mewn maes chwarae antur | 3.1 Disgrifio sut i sicrhau bod y nodweddion a'r strwythurau mewn maes chwarae antur yn cael eu monitro a'u cynnal |
| | 3.2 Disgrifio manteision meysydd chwarae antur a chwarae awyr agored i iechyd a lles plant |
| 4. Yn deall gwaith partneriaeth mewn maes chwarae antur | 4.1 Crynhoi ffyrdd y gallai gwahanol sefydliadau fod yn rhan o gydweithio â maes chwarae antur |
| | 4.2 Disgrifio sut y gall cysylltiadau â'r gymuned leol a'r gweithlu ehangach fod o fudd i blant |
| 5. Yn gwybod sut i gefnogi chwarae plant mewn maes chwarae antur | 5.1 Esbonio mathau o gymorth y gall fod eu hangen ar blant i adeiladu ac addasu strwythurau a nodweddion chwarae mewn maes |
| | 5.2 Esbonio sut i alluogi plant i gynnal ymdeimlad o berchnogaeth ar y maes chwarae antur |
| | 5.3 Esbonio sut i ymateb i ymddygiad y gellid ystyried ei fod yn niweidiol neu'n sarhaus |
| 6. Yn gallu hyrwyddo chwarae a'r maes | 6.1 Dangos sut i hyrwyddo chwarae a'r maes chwarae antur i feithrin perthynas gadarnhaol â'r gymuned leol |
| 7. Yn gallu cynnal maes chwarae antur diogel | 7.1 Cwblhau archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd o'r maes chwarae antur ac unrhyw safle |
| | 7.2 Dangos sut i gynnal asesiad budd risg dynamig |
| | 7.3 Cynnwys plant mewn asesiad budd risg mewn maes chwarae antur |

| Canlyniadau dysgu Bydd y dysgwr: | Meini prawf asesu Mae'r dysgwr yn gallu: |
|---|---|
| 8. Yn gallu cefnogi plant i gynnal ymdeimlad o berchnogaeth ar y maes chwarae antur | 8.1 Dangos sut mae arsylwi ar syniadau a diddordebau plant a gweithredu yn eu cylch |
| | 8.2 Cefnogi plant i ddefnyddio adnoddau'n annibynnol ac addasu'r manau neu nodweddion chwarae |
| | 8.3 Defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar chwarae er mwyn galluogi plant i gael at adnoddau |
| | 8.4 Galluogi plant i gyfrannu at gynnal a chadw a storio adnoddau |
| 9. Yn myfyrio ar ymarfer gwaith chwarae mewn maes chwarae antur | 2.2 Myfyrio ynghylch ymarfer yn ei safle ei hun mewn perthynas â'r egwyddorion gwaith chwarae |

| Ystod |
|--|
| 1. Deall ethos meysydd chwarae antur |
| 1.1 Ethos: Byddai dysgwyr yn elwa ar ymwybyddiaeth o esblygiad meysydd chwarae antur i gefnogi'r maen prawf asesu hwn. |
| 4. Deall gwaith partneriaeth mewn maes chwarae antur |
| 4.1. Sefydliadau: Gallai dysgwyr ystyried sefydliadau fel: <ul style="list-style-type: none"> • ysgolion • gwasanaethau ieuenctid • ysgolion coedwig • lleoliadau blynyddoedd cynnar • ysgolion traeth • sefydliadau sy'n benodol i'r gymuned leol |
| 5. Gwybod sut i gefnogi chwarae plant mewn maes chwarae antur |
| 5.3 Ymddygiad: Y ddynmeg a'r hwyliau grŵp ac unigol posibl pan fydd plant yn y maes chwarae antur, yn ogystal â phan fyddant yn cyrraedd ac yn gadael y safle. Mae ymddygiad ynghylch perchnogaeth a hawliadau tiriogaethol yn gynhenid |
| 7. Gallu cynnal maes chwarae antur diogel |
| 7.1 Archwiliadau iechyd a diogelwch: Rhaid i archwiliadau iechyd a diogelwch gynnwys archwiliadau diogelwch sy'n cynnwys cyrraedd y maes chwarae a'i adael, o fewn cyfyngiadau'r rôl ei hun. |

Canllawiau cyflwyno ac asesu

LO1: Dylai dysgwyr weithredu o fewn ffiniau proffesiynol a gallu datblygu a chynnal perthynas gadarnhaol â gwahanol bobl yn gyson. Byddai o fudd i'r dysgwr gael ymwybyddiaeth o esblygiad meysydd chwarae antur wrth archwilio'u hethos.

LO6: Dylid ystyried bod yn agored i anghenion, diwylliannau a safbwyntiau unigol y gymuned leol.

Perthynas â safonau galwedigaethol cenedlaethol (SGC):

- SKAPW87: Datblygu a chynnal a chadw meysydd chwarae antur

Dulliau asesu a argymhellir

Mae ystod o ddulliau asesu wedi'u hadnabod a'u hargymhell, a gellir eu defnyddio ar gyfer yr unedau yn y cymwysterau hyn. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i ystyried anghenion unigol dysgwyr.

Os ydych yn cynnig defnyddio dull asesu nad yw wedi'i gynnwys yn y rhestr a argymhellir, dylech gysylltu â'r sawl sy'n sicrhau ansawdd yn allanol gyda manylion llawn eich dull arfaethedig. Bydd angen i NCFE ei gymeradwyo'n ffurfiol cyn y gellir ei ddefnyddio.

Rhaid i bob dysgwr gynhyrchu tystiolaeth o dasgau asesu priodol, sy'n dangos cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu sy'n gysylltiedig â phob uned (ni ddyfarnir graddau).

Trowch at y nodiadau'n ymwneud â thystiolaeth tyst arbenigol ac efelychiad sy'n dilyn y tabl hwn.

| Cyf | Dull asesu | Asesu cymhwysedd/sgiliau | Asesu gwybodaeth/dealltwriaeth |
|-----|--|--------------------------|--------------------------------|
| A | Arsylwi'r dysgwr yn uniongyrchol gan aseswr: <ul style="list-style-type: none"> gan aseswr sy'n bodloni strategaethau/egwyddorion asesu'r Cyngor Sector Sgiliau perthnasol, neu strategaethau/egwyddorion eraill ac sy'n cynnwys casglu gwybodaeth o'r dull hwn o arsylwi ymarfer yn uniongyrchol | Ydy | Ydy |
| B | Trafodaeth broffesiynol | Ydy | Ydy |
| C | Tystiolaeth tyst arbenigol*: <ul style="list-style-type: none"> dan gyfarwyddyd y Cyngor Sector Sgiliau neu strategaethau/egwyddorion asesu eraill | Ydy | Ydy |
| D | Cynhyrchion gwaith y dysgwr ei hun | Ydy | Ydy |
| E | Cofnod neu ddyddiadur myfyriol y dysgwr | Ydy | Ydy |
| F | Cynllun gweithgaredd neu weithgaredd wedi'i drefnu | Ydy | Ydy |
| G | Arsylwi plant, pobl ifanc ac oedolion gan y dysgwr | Ydy | Ydy |
| H | Portffolio o dystiolaeth: <ul style="list-style-type: none"> gall gynnwys efelychiad** | Ydy | Ydy |
| I | Cydnabod dysgu blaenorol | Ydy | Ydy |

| Cyf | Dull asesu | Asesu cymhwysedd/sgiliau | Asesu gwybodaeth/dealltwriaeth |
|-----|--|--------------------------|--------------------------------|
| J | Myfyrio ar eich ymarfer eich hun mewn amgylchedd gwaith go iawn | Ydy | Ydy |
| K | Gwybodaeth ysgrifenedig a darluniadol | Nac ydy | Ydy |
| L | Senario neu astudiaeth achos | Nac ydy | Ydy |
| M | Tasg wedi'i gosod gan NCFE (ar gyfer canlyniadau dysgu gwybodaeth) | Nac ydy | Ydy |
| N | Holi ac ateb ar lafar | Ydy | Ydy |

* Dylid defnyddio **tystiolaeth tyst arbenigol** yn unol â'r strategaeth/egwyddorion asesu perthnasol. Mae'n rhaid arfer disgrisiwn proffesiynol wrth ddefnyddio'r dull hwn, a dylid ei ddefnyddio'n unig lle na fyddai arsylwi'n addas. Mae'n rhaid i'r sawl sy'n darparu tystiolaeth tyst arbenigol fod yn ymarferwyr arweiniol gyda phrofiad o wneud dyfarniadau yn seiliedig ar gymhwysedd. Mae'r amgylchiadau canlynol yn rhai sy'n caniatáu tystiolaeth tyst arbenigol:

- lle gallai asesiad achosi gofid i unigolyn, fel cefnogi plentyn ag angen penodol
- sefyllfa sy'n digwydd yn anaml iawn, fel delio â damwain neu salwch
- sefyllfaoedd cyfrinachol, fel cyfarfodydd strategaeth diogelu, lle na fyddai'n briodol i aseswr arsylwi perfformiad y dysgwr.

** **Efelychiad** Mae portffolio o dystiolaeth dysgwr yn gallu cynnwys efelychu sgiliau cyn belled â bod y strategaeth/egwyddorion asesu perthnasol yn caniatáu hynny.

Gofynion ar gyfer cyfeirio

Os bydd dysgwyr yn defnyddio cyfeiriadau i gefnogi eu gwaith, sylwch fod rhaid cyfeirio'n briodol ar y ffynhonnell wreiddiol.

Strategaethau ac egwyddorion asesu sy'n berthnasol i'r cymwysterau hyn.

Mae gofynion allweddol y strategaethau neu'r egwyddorion asesu sy'n berthnasol i'r unedau yn y cymwysterau hyn wedi'u crynhoi isod.

Mae angen i'r ganolfan sicrhau bod unigolion sy'n ymgymryd â rolau asesu neu sicrhau ansawdd yn y ganolfan yn cydymffurfio â'r gofynion asesu ar gyfer yr uned y maent yn ei hasesu neu'n sicrhau ei hansawdd.

Egwyddorion asesu NCFE ar gyfer cymwysterau gofal oedolion, gofal plant ac iechyd

1. Cyflwyniad

1.1 Dylid darllen yr egwyddorion a'r dulliau hyn o asesu unedau/cymhwyster ochr yn ochr â gofynion asesu unedau unigol, lle bo'n briodol.

1.2 Bydd yr egwyddorion hyn yn sicrhau dull cyson o ymdrin â'r elfennau hynny o asesu y mae angen eu dehongli a'u diffinio ymhellach, ac yn cefnogi hyder y sector.

1.3 Mae angen i'r ganolfan sicrhau bod unigolion sy'n ymgymryd â rolau asesu neu sicrhau ansawdd yn y ganolfan yn cydymffurfio ag egwyddorion asesu'r Cyngor Sgiliau Sector a/neu NCFE ar gyfer yr uned y maent yn ei hasesu neu'n sicrhau ei hansawdd.

Asesu gwybodaeth, cymhwysedd a sgiliau

Bydd angen i ddysgwyr fodloni'r holl feini prawf asesu ar gyfer gwybodaeth, cymhwysedd a sgiliau sydd wedi'u cynnwys yn y cymhwyster gan ddefnyddio dulliau asesu priodol.

Cymhwysedd sgiliau ymarferol

Y ganolfan y mae'r dysgwyr wedi'u cofrestru â hi fydd yn gyfrifol am wneud yr holl benderfyniadau asesu. Rhaid i aseswyr gael eu **contractio** i weithio'n uniongyrchol gyda'r ganolfan, gan gyfrannu at bob agwedd ar safoni. Rhaid i'r ganolfan sicrhau bod proses hyfforddi yn cael ei dilyn, gan gynnwys yn ystod gweithgareddau sefydlu a sicrhau ansawdd. Rhaid i aseswyr o'r ganolfan sy'n alwedigaethol alluog ac yn gymwys ddefnyddio arsylwi uniongyrchol i asesu canlyniadau dysgu ymarferol sy'n seiliedig ar sgiliau. Ceir rhagor o wybodaeth ac arweiniad isod.

2. Egwyddorion asesu

2.1 Rhaid i benderfyniadau asesu ar gyfer canlyniadau dysgu sy'n seiliedig ar gymhwysedd a sgiliau ymwneud â phrofiad a gafwyd mewn amgylchedd gwaith go iawn.

2.2 Rhaid i benderfyniadau asesu ar gyfer canlyniadau dysgu sy'n seiliedig ar gymhwysedd a sgiliau gael eu gwneud gan aseswr sy'n alwedigaethol alluog, ac yn gymwys i wneud penderfyniadau asesu.

2.3 Rhaid i asesu ar sail cymhwysedd a sgiliau gynnwys arsylwi uniongyrchol fel y brif ffynhonnell dystiolaeth.

2.4 Dim ond lle mae hyn wedi'i nodi yn y gofynion asesu y gellir defnyddio efelychu fel dull asesu ar gyfer canlyniadau dysgu sy'n seiliedig ar gymhwysedd.

2.5 O ystyried natur gweithio gyda phlant, pobl ifanc, defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd (os yw'n berthnasol), a all o bryd i'w gilydd gynnwys sefyllfaoedd sensitif sy'n gofyn am gyfrinachedd/preifatrwydd, efallai y bydd angen defnyddio tystiolaeth tyst arbenigol fel ffynhonnell tystiolaeth perfformiad yn y gweithle.

Gellir tynnu tystion arbenigol o blith unigolion profiadol sy'n gallu tystio i berfformiad y dysgwr yn y gweithle. Gall hyn gynnwys rheolwyr llinell neu gydweithwyr profiadol eraill o'r tu mewn i sefydliad neu o asiantaethau eraill. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig i'r dysgwyr hynny sy'n gweithio heb oruchwyliaeth, ond sydd â chyswllt ag amrywiaeth o wahanol weithwyr proffesiynol yn ystod eu gweithgareddau gwaith.

Dim ond pan fydd ganddynt arbenigedd galwedigaethol mewn meysydd arbenigol neu os yw'r arsylwi o natur sensitif iawn y dylid defnyddio tystion arbenigol ar gyfer arsylwi. Nid oes angen i dystion arbenigol feddu ar gymhwyster aseswr, gan fod yn rhaid i aseswr cymwysedig asesu'r dystiolaeth a ddarperir gan dyst arbenigol wrth wneud penderfyniadau asesu crynodol. Gweler hefyd adran 4.5.

Dylai'r ganolfan alluogi tystion arbenigol i ddarparu a chyflwyno eu tystiolaeth mewn ffordd effeithlon nad yw'n peryglu dilysrwydd a dibynadwyedd. Gallai hyn gynnwys y canlynol:

- defnyddio recordiadau llais a sain
- trwy drafodaethau o bell lle gallai'r prif aseswr ysgrifennu cyfraniadau'r tyst arbenigol (er enghraifft, trwy Microsoft Teams neu Zoom)
- dros y ffôn lle gallai'r aseswr ysgrifennu'r dystiolaeth

Yn ogystal, rhaid i ganolfannau addasu eu strategaethau sicrhau ansawdd mewnol (IQA) i sicrhau bod dyfarniadau aseswyr yn seiliedig ar dystiolaeth tystion arbenigol yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer gweithgareddau safoni a samplu.

Gellir defnyddio trafodaeth broffesiynol ac adroddiadau myfyriol i gefnogi mathau eraill o dystiolaeth ond nid ydynt yn ffynonellau tystiolaeth uniongyrchol a all ddisodli'r gofyniad arsylwi.

2.6 Gellir asesu canlyniadau dysgu sy'n seiliedig ar wybodaeth y tu mewn neu'r tu allan i amgylchedd gwaith go iawn.

2.7 Rhaid i benderfyniadau asesu ar gyfer canlyniadau dysgu sy'n seiliedig ar wybodaeth gael eu gwneud gan aelod o staff sy'n alwedigaethol wybodus, sy'n gymwys i wneud penderfyniadau asesu. Y ganolfan y mae'r dysgwyr wedi'u cofrestru â hi fydd yn gyfrifol am wneud yr holl benderfyniadau asesu. Rhaid i aseswyr o'r ganolfan sy'n alwedigaethol alluog ac yn gymwys ddefnyddio arsylwi uniongyrchol i asesu canlyniadau dysgu sy'n seiliedig ar sgiliau ymarferol.

Technoleg o bell

2.8 Gwaherddir defnyddio technoleg o bell mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, ysgol, gofal plant, iechyd a gofal oedolion lle mae risg bosibl y bydd defnyddwyr y gwasanaeth, neu eu gofalwyr/teuluoedd, yn cael eu gweld neu eu clywed yn anfwriadol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio pob dyfais recordio a ffrydio fel ffonau symudol, gliniaduron a thabledi. Sylwch na ddylid defnyddio technoleg i weld asesiadau o bell, hyd yn oed pan nad ydych yn recordio. Er enghraifft, ni all aseswyr gwblhau arsylwadau o bell i brofi cymhwysedd trwy wyllo dysgwyr yn 'fyw' gan ddefnyddio technoleg o bell.

Gellid ystyried defnyddio technolegau o bell i gefnogi agweddau ar berfformiad y dysgwr. Er enghraifft, gall hyn gynnwys sesiynau cynllunio, cyfarfodydd ar-lein a gweithgareddau o bell y mae'r dysgwr yn cyfrannu atynt a lle gallai'r aseswr hefyd fynychu o bell neu arsylwi trwy ddefnyddio technoleg. Yn yr enghreifftiau hyn, **rhaid** i'r dysgwr fod mewn amgylchedd i ffwrdd oddi wrth unrhyw blant, pobl ifanc, defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd. Gellid hefyd ystyried defnyddio technolegau ar gyfer casglu tystiolaethau tystion arbenigol.

3. Sicrhau ansawdd mewnol (IQA)

3.1 Mae sicrhau ansawdd mewnol yn allweddol i sicrhau bod yr asesiad o dystiolaeth ar gyfer unedau o ansawdd cyson a phriodol. Rhaid i'r rhai sy'n cynnal sicrwydd ansawdd mewnol fod yn alwedigaethol wybodus yn y maes y maent yn ei sicrhau a bod yn gymwys i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd.

Canlyniadau dysgu gwybodaeth:

- bydd angen i aseswyr fod yn alwedigaethol wybodus ac yn gymwys i wneud penderfyniadau asesu
- bydd angen i swyddogion sicrhau ansawdd mewnol fod yn alwedigaethol wybodus ac yn gymwys i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd

Canlyniadau dysgu cymhwysedd a sgiliau:

- bydd angen i aseswyr fod yn alwedigaethol alluog ac yn gymwys i wneud penderfyniadau asesu
- bydd angen i rai sy'n sicrhau ansawdd yn fewnol fod yn alwedigaethol wybodus ac yn gymwys i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd

4. Diffiniadau

4.1 Yn alwedigaethol alluog:

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob aseswr allu cyflawni'r gofynion llawn o fewn yr unedau cymhwysedd y maent yn eu hasesu. Mae bod yn alwedigaethol alluog yn golygu eu bod hefyd yn alwedigaethol wybodus. Dylid cynnal y gallu galwedigaethol hwn trwy ddysgu parhaus a datblygiad proffesiynol amlwg.

4.2 Yn alwedigaethol wybodus:

Mae hyn yn golygu y dylai pob aseswr feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth berthnasol a gallu asesu hyn mewn unedau a gynlluniwyd i brofi gwybodaeth a dealltwriaeth benodol, neu mewn unedau lle mae gwybodaeth a dealltwriaeth yn gydrannau o gymhwysedd. Dylid cynnal y wybodaeth alwedigaethol hon trwy ddysgu parhaus a datblygiad proffesiynol amlwg.

4.3 Yn gymwys i wneud penderfyniadau asesu:

Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob aseswr feddu ar gymhwyster sy'n addas i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau asesu priodol a chyson. Bydd sefydliadau dyfarnu yn pennu beth fydd yn cymhwysu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau asesu yn unol â'r uned gymhwysedd sy'n cael ei hasesu.

Dylai aseswyr y cymwysterau hyn fod â chymwysterau priodol i wneud penderfyniadau asesu. Er nad yw'n ofniad penodol ar gyfer y cymwysterau hyn, rydym o'r farn ei bod yn arfer da i aseswyr feddu ar, neu fod yn gweithio tuag at, gymhwyster cydnabyddedig mewn asesu. Lle nad oes cymhwyster cydnabyddedig, dylai aseswyr allu dangos profiad perthnasol a chyfredol o asesu.

Er mwyn asesu unedau sy'n seiliedig ar wybodaeth, dylai'r aseswr fod yn alwedigaethol wybodus. Dylai fod ganddynt wybodaeth berthnasol i asesu unedau a gynlluniwyd i brofi gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr. Dylai'r wybodaeth hon fod yn amlwg trwy gymwysterau/profiad perthnasol ac ar lefel gyfatebol neu uwch na'r unedau sy'n cael eu hasesu.

Er mwyn asesu unedau sy'n seiliedig ar gymhwysedd, dylai'r aseswr fod yn alwedigaethol alluog. Dylent allu cyflawni gofynion yr unedau y maent yn eu hasesu. Dylai'r cymhwysedd hwn fod yn amlwg trwy gymwysterau/profiad perthnasol ac ar lefel gyfatebol neu uwch na'r unedau sy'n cael eu hasesu. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o gymwysterau/rolau y gall tiwtoriaid/athrawon/aseswyr eu dal er mwyn gallu gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud ag asesu dysgwyr:

- cymhwyster aseswr fel D32/D33, A1/A2 neu Ddyfarniad/Tystysgrif Lefel 3 mewn Asesu Cyflawniad sy'n Gysylltiedig â Galwedigaeth
- Statws Athro Cymwysedig/Statws Proffesiynol Blynyddoedd Cynnar
- Tystysgrif Addysg mewn Addysg Ôl-orfodol (PCE)
- Tystysgrif mewn Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (CTLLS)
- Diploma mewn Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes (DTLLS)

Ni fwriedir i unrhyw enghreifftiau a roddir fod yn hollgynhwysfawr nac yn derfynol. Rhoddir enghreifftiau o gymwysterau a chefnidiroedd galwedigaethol perthnasol fel meincnodau. Gall cymwysterau neu

gefndiroedd cyfatebol eraill hefyd gymhwysu darpar staff ar gyfer rolau asesu. Dylai canolfannau sydd am gael eglurhad pellach gysylltu â'u swyddog sicrhau ansawdd allanol yn y lle cyntaf.

4.4 Yn gymwys i wneud penderfyniadau sicrhau ansawdd:

Bydd NCFE yn penderfynu pa gymwysterau a/neu brofiad sy'n ofynnol mewn perthynas â:

- rôl yr aseswr ar gyfer meini prawf asesu sy'n seiliedig ar wybodaeth
- rôl yr aseswr ar gyfer meini prawf asesu sy'n seiliedig ar gymhwysedd a sgiliau
- rôl y swyddog sicrhau ansawdd mewnol

4.5 Tyst arbenigol:

Rhaid i dystiolaeth gan dystion arbenigol fodloni profion sicrwydd, dibynadwyedd a dilysrwydd. Bydd angen i dystion arbenigol ddangos:

- bod ganddynt wybodaeth ymarferol o'r unedau y mae eu harbenigedd yn seiliedig arnynt
- eu bod yn alwedigaethol alluog yn eu maes arbenigedd
- bod ganddynt **naill ai** unrhyw gymhwyster mewn asesu perfformiad yn y gweithle **neu** rôl gwaith proffesiynol sy'n cynnwys gwerthuso arferion beunyddiol staff
- bod ganddynt brofiad cyfredol neu ddiweddar (o fewn y 2 flynedd ddiwethaf) o weithio ar y lefel y maent yn ardystio cymhwysedd ar ei chyfer neu'n uwch
- y gallant ddangos datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) priodol sy'n berthnasol i'r sector y maent yn ardystio cymhwysedd ar ei gyfer
- nad oes ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau yng nghanlyniad y dystiolaeth

Adran 3: esboniad o dermau

Mae'r tabl hwn yn esbonio sut mae'r termau a ddefnyddir ar lefel 3 yng nghynnwys yr uned yn cael eu cymhwyso i'r cymhwyster hwn (nid yw pob berf yn cael ei defnyddio yn y cymhwyster hwn).

| | |
|--|--|
| Adolygu a diwygio | Edrych yn ôl dros y pwnc a gwneud cywiriadau neu newidiadau. |
| Allosod | Defnyddio gwybodaeth flaenorol i ragfynegi canlyniadau posibl a allai fod y tu hwnt i'r norm. |
| Amcangyfrif | Cynnig amcangyfrif o benderfyniad neu farn gan ddefnyddio gwybodaeth flaenorol neu ystyried gwybodaeth arall. |
| Arddangos | Dangos dealltwriaeth trwy ddisgrifio, egluro neu ddarlunio gan ddefnyddio enghreifftiau. |
| Barnu | Ffurio barn neu wneud penderfyniad. |
| Coladu | Casglu a chyflwyno gwybodaeth mewn trefn ddilyniannol neu resymegol. |
| Crynhoi | Rhoi'r prif syniadau neu ffeithiau mewn ffordd gryno. |
| Cyfiawnhau | Rhoi esboniad boddhaol dros weithredoedd neu benderfyniadau. |
| Cyflawni | Cyflawni tasg neu broses yn unol â gofynion y cwestiwn. |
| Cymharu | Archwilio'r pynciau'n fanwl gan edrych ar y tebygrwydd a'r gwahaniaethau. |
| Cymharu'n feirniadol | Dyma ddatblygiad o 'cymharu' lle mae'r dysgwr yn ystyried agweddau positif a chyfyngiadau'r pwnc. |
| Cymhwyso | Egluro sut y gellir cysylltu gwybodaeth sydd ar gael eisoes i sefyllfaoedd newydd neu wahanol. |
| Cynllunio | Ystyried a threfnu gwybodaeth mewn ffordd resymegol gan ddefnyddio ffurf addas. |
| Dadansoddi | Rhannu'r pwnc yn rhannau unigol ac archwilio pob un. Dangos y cysylltiad rhwng y prif syniadau a pham eu bod yn bwysig. Mae cyfeirio at ymchwil neu theori gyfredol yn gallu cefnogi'r dadansoddiad. |
| Dangos | Darparu tystiolaeth i ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth gywir. |
| Darparu | Nodi a rhoi gwybodaeth berthasol a manwl mewn perthynas â'r pwnc. |
| Datblygu (cynllun/syniad sy'n...) | Ehangu cynllun neu syniad trwy ychwanegu mwy o fanylion a/neu ddyfnder y wybodaeth. |
| Datgan | Rhoi'r prif bwyntiau yn glir mewn brawddegau neu baragraffau. |
| Dehongli | Esbonio ystyr rhywbeth |
| Dewis | Gwneud dewis gwybodus a bwrpas penodol. |
| Disgrifio | Ysgrifennu am y pwnc gan gynnig gwybodaeth fanwl mewn ffordd resymegol. |

| | |
|---------------------------------|--|
| Dod i gasgliad (sy'n...) | Gwneud penderfyniad neu ddyfarniad terfynol yn seiliedig ar resymau. |
| Dosbarthu | Trefnu yn unol â meini prawf penodol. |
| Egluro | Esbonio'r wybodaeth mewn modd eglur a chryno. |
| Esbonio | Darparu manylion am y pwnc gyda rhesymau'n dangos sut neu pam. Gallai atebion gynnwys enghreifftiau i gefnogi'r rhesymau hyn. |
| Gwahaniaethu | Nodi'r gwahaniaethau rhwng dau neu fwy o bethau. |
| Gweithredu | Esbonio sut i roi syniad neu gynllun ar waith. |
| Gwerthuso | Archwilio cryfderau a gwendidau, dadleuon o blaid ac yn erbyn, a/neu nodweddion tebyg ac annhebyg. Barnu'r dystiolaeth o'r gwahanol safbwyntiau a llunio casgliad dilys neu ddyfarniad rhesymegol. Mae cyfeirio at ymchwil neu theori gyfredol yn gallu cefnogi'r gwerthusiad. |
| Gwneud diagnosis | Adnabod yr achos yn seiliedig ar dystiolaeth ddilys. |
| Hynodi | Esbonio'r gwahaniaeth rhwng dau neu fwy o eitemau, adnoddau, darnau o wybodaeth. |
| Myfyrio | Dylai dysgwyr ystyried eu gweithredoedd, eu profiadau neu eu dysgu a goblygiadau hyn ar gyfer eu hymarfer a/neu ddatblygiad proffesiynol. |
| Nodi | Adnabod ac enwi'r prif bwyntiau'n gywir. (efallai y bydd angen rhyw ddisgrifiad hefyd i ennill marciau uwch wrth ddefnyddio dull marcio cydadferol). |
| Trafod | Ysgrifennu adroddiad manwl yn rhoi ystod o safbwyntiau neu farnau. |
| Ystyried | Meddwl yn ofalus ac ysgrifennu am broblem, gweithred neu benderfyniad. |

Adran 4: cymorth

Deunyddiau cymorth

Mae'r deunyddiau cymorth canlynol ar gael i gynorthwyo gyda chyflenwi'r cymwysterau hyn, ac maent ar gael ar wefan NCFE:

- log olrhain tystiolaeth dysgwr (LETL)
- taflen ffeithiau cymhwyster

Deunyddiau cymorth eraill

Rhaid i'r adnoddau a'r deunyddiau a ddefnyddir wrth gyflenwi'r cymwysterau hyn fod yn briodol i oedran, a dylid rhoi ystyriaeth briodol i les a diogelu dysgwyr yn unol â pholisi diogelu eich sefydliad wrth ddatblygu neu ddewis deunyddiau cyflenwi.

Atgynhyrchu'r ddogfen hon

Caniateir atgynhyrchu gan ganolfannau cymeradwy at ddefnydd mewnol o dan yr amodau canlynol:

- cewch gopïo a gludo unrhyw ddeunydd o'r ddogfen hon; fodd bynnag, ni dderbyniwn unrhyw atebolrwydd am unrhyw gopïo anghyflawn neu wallus nac unrhyw ddefnydd pellach a wneir o'r wybodaeth
- bydd defnyddio fersiynau PDF o'n deunyddiau cymorth ar wefan NCFE yn sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir i ddysgwyr yn gywir a chyfredol
- ein heiddo ni yn unig yw unrhyw luniau sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn, neu fe'u defnyddir o dan drwydded gan drydydd parti
 - fe'u diogelir yn ôl cyfraith hawlfraint, ac ni ellir eu hatgynhyrchu, eu copïo na'u haddasu drwy unrhyw fodd
 - mae hyn yn cynnwys defnyddio unrhyw ddelwedd neu ran o ddelwedd mewn prosiectau unigol neu grŵp a deunyddiau asesu
 - mae pob delwedd yn destun caniatâd i ddefnyddio delwedd unigolyn

Cysylltwch â ni

NCFE
Q6
Quorum Park
Benton Lane
Newcastle upon Tyne
NE12 8BT

Ffôn: 0191 239 8000*
Ffacs: 0191 239 8001
E-bost: customersupport@ncfe.org.uk
Gwefan: www.ncfe.org.uk

Hawlfraint NCFE © 2023 Cedwir pob hawl yn fyd-eang

Fersiwn 1.2 Tachwedd 2023

Mae'r wybodaeth yn y fanyleb gymhwyster hon yn gywir adeg ei chyhoeddi, ond gall fod yn destun newid.

Mae NCFE yn elusen gofrestredig (Rhif Elusen Gofrestredig 1034808) ac yn gwmni cyfyngedig trwy warant (Rhif Cwmni 2896700).

Mae CACHE; Council for Awards in Care, Health and Education; a NNEB yn nodau masnach cofrestredig sy'n eiddo i NCFE.


Mae'r holl ddeunydd yn y cyhoeddiad hwn yn cael ei warchod gan hawlfraint.

**** I barhau i wella ein lefelau gwasanaeth cwsmeriaid, gall galwadau ffôn gael eu recordio at ddibenion hyfforddiant ac ansawdd.***

Atodiad A







Unedau

Er mwyn ei gwneud yn haws croesgyfeirio, asesu a sicrhau ansawdd, rydym wedi defnyddio system rifo ddilyniannol yn y ddogfen hon ar gyfer pob uned.>

 Dynodir unedau gwybodaeth yn unig gan seren. Os nad oes seren yn dynodi uned, mae'n uned sgiliau neu'n uned sy'n cynnwys cymysgedd o sgiliau a gwybodaeth.

Sylwch: Mae Tystysgrif Lefel 3 mewn Deall Gwaith Chwarae yn gymhwyster sy'n seiliedig ar wybodaeth – nid oes angen profiad lleoliad gwaith

Unedau gorfodol

| | Rhif yr uned | Rhif uned wedi'i reoleiddio | Teitl yr uned | Lefel | Gwerth | ODDA | Tystysgrif | Diploma | Nodiadau |
|---|--------------|-----------------------------|---|-------|--------|------|------------|---------|----------|
|  | L3CD PW1 | J/650/0596 | Deall chwarae ac egwyddorion gwaith chwarae | 3 | 3 | 25 | Y | Y | |
| | L3CD PW2 | K/650/0597 | Creu amgylcheddau cefnogol ar gyfer chwarae plant | 3 | 4 | 36 | Y | Y | |
|  | L3CD PW3 | L/650/0598 | Deall sut i gefnogi diogelu plant yn y safle gwaith chwarae | 3 | 4 | 36 | Y | Y | |
|  | L3CD PW4 | R/650/0616 | Deall fframweithiau sefydliadol i amddiffyn hawliau plant | 3 | 3 | 25 | Y | Y | |
|  | L3CD PW5 | M/650/0599 | Deall chwarae a lles | 3 | 3 | 25 | Y | Y | |
|  | L3CD PW6 | D/650/0600 | Deall perthnasoedd yn y safle gwaith chwarae | 3 | 3 | 25 | Y | Y | |
|  | L3CD PW7 | F/650/0601 | Deall iechyd a diogelwch yn y safle gwaith chwarae | 3 | 2 | 16 | Y | Y | |

| Rhif yr uned | Rhif uned wedi'i reoleiddio | Teitl yr uned | Lefel | Gwerth | ODDA | Tystysgrif | Diploma | Nodiadau |
|--------------|-----------------------------|---|-------|--------|------|------------|---------|----------|
| L3CD PW8 | H/650/0602 | Cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol ac ymarfer myfyriol | 3 | 2 | 16 | Y | Y | |
| L3D PW9 | J/650/0603 | Cyfrannu at fframweithiau sefydliadol er mwyn ymateb i anghenion a dewisiadau pob plentyn | 3 | 5 | 46 | | Y | |
| L3D PW10 | K/650/0604 | Cynnal amgylcheddau iach a diogel mewn gwaith chwarae | 3 | 2 | 16 | | Y | |
| L3D PW11 | L/650/0605 | Datblygu a hyrwyddo perthnasoedd yn y safle gwaith chwarae | 3 | 5 | 46 | | Y | |
| L3D PW12 | M/650/0606 | Paratoi ar gyfer chwarae plant a'i gefnogi | 3 | 4 | 36 | | Y | |
| L3D PW13 | R/650/0607 | Cefnogi cynhwysiant mewn safle gwaith chwarae | 3 | 3 | 30 | | Y | |

Unedau dewisol

| Rhif yr uned | Rhif uned wedi'i reoleiddio | Teitl yr uned | Lefel | Gwerth | ODDA | Tystysgrif | Diploma | Nodiadau |
|--------------|-----------------------------|---|-------|--------|------|------------|---------|----------|
| L3D PWOP1 | Y/650/0609 | Archwilio gwahanol safbwyntiau a dylanwadau ar waith chwarae | 3 | 4 | 36 | | Y | |
| L3D PWOP2 | F/650/0610 | Trefnu teithio i blant | 3 | 2 | 16 | | Y | |
| L3D PWOP3 | H/650/0611 | Hyrwyddo eich sefydliad gwaith chwarae eich hun | 3 | 2 | 16 | | Y | |
| L3D PWOP4 | J/650/0612 | Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau ac unigolion eraill | 3 | 2 | 16 | | Y | |
| L3D PWOP5 | K/650/0613 | Gweithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol ac anabledau mewn safle gwaith chwarae | 3 | 4 | 36 | | Y | |
| L3D PWOP6 | L/650/0614 | Gweithio gyda rhieni, gofalwyr a theuluoedd | 3 | 4 | 36 | | Y | |
| L3D PWOP7 | M/650/0615 | Deall gwaith tîm ar gyfer ymarfer gwaith chwarae o ansawdd | 3 | 2 | 16 | | Y | |
| L3D PWOP8 | A/650/1717 | Deall sut i gyfrannu at weithredu safle gwaith chwarae | 3 | 2 | 16 | | Y | |
| L3D PWOP9 | D/650/1718 | Darparu bwyd a diod mewn safle gwaith chwarae | 3 | 2 | 16 | | Y | |
| L3D PWOP10 | F/650/1719 | Hwyluso meysydd chwarae antur | 3 | 2 | 16 | | Y | |

Gall yr unedau uchod fod ar gael fel rhaglenni uned annibynnol. Trowch at ein gwefan am ragor o wybodaeth.